

1550

109

1550/1097

INTERLUDE

NEU

CHWARE YDDIAETH,

YN GOSOD ALLAN

Y

TRI CHRYFION BYD.

SEF

*CARIAD, TYLODI, AC
ANGEU.*

Gan **THOMAS EDWARDS,**
Neu Twm o'r Nant.

Yr ail Argraffiad.

LLANRWST:

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES.

1848.



ENTER SIR TOM TELL TRUTH.

TRWY'ch cenad, heb gynen, â llawen ddull hoyw,
Dymuno yma *silence*, ac i bawb ddal sylw;
Chwi gewch ddyfyrwch yn ddi-feth,
Os torwch beth o'ch twrw.

Mae'n gofyn i bawb sy am wrando,
Roi pob ymddiddan heibio;
Ni ddichon neb ddeall unrhyw ddawn,
Neu 'stori, heb iawn ystyrio.

Cymyscaidd ieithoedd *Babel*
Sydd yma fynycha'n uchel;
Ni cheir, lle bo gynifer dŷn,
Ond ychydig yn un chwedel.

Mae dŷn wrth naturiaeth wedi tori'n druenus,
A'i feddyliau'n anwadal, yn falch ac yn wawdus,
Yn ymlid fal canghenau pien ar wynt,
Ryw helynt afreolus.

Fe dd'wedodd y sarph o'r dechreu
Y byddai dynion megis duwiau,
A'r balchder hwnw sy'n ffals ei wên
Yn glynu mewn hen galonau.

Can's fel hyn etto mae dŷn wrth natur,
Yn dal yn arw am wneud Diawl yn eirwir,
Am fod yn ddoeth yn ei olwg ei hun
Mae braidd bob dŷn a adwaenir.

Anfynych y clywir neb yn datgan
Histori neu hanes, heb ei ganmol ei hunan;
'D oes dim yn derchafu ac yn clymu yn clêr
Mor sŷtiol a balchder Satan.

Mae balchder Cymry ffolion,
I ymestyn ar ol y Saeson,
Gan ferwi am fyn'd o fawr i fach,
I ddiogi'n grach fon'ddigion.

Os cant hwy ryw esgus o fod yn 'r ysgol,
Ni wiw am air o Gymraeg ymorol
They cannot talk Welsh, nor understand,
Oni fyddir yn grand ryfeddol.

Y mae'n gywilyddus clywed carpiâu
Yn lladd ac yn mwmlan ar iaith eu mamau,
Heb fedru na Chymraeg, na Saes'neg chwaith;—
Onid ydyw'n waith annethau.

Ac os bydd rhyw hogenig wedi bod yn gweini,
Yn Nghaer neu'r Amwythig, dyna'r cwbl yn methn,
'Cheir gair o Gymraeg, ac os d'wed hi beth,
Oh! 'r lcdiaeth fydd ar *my Lady*.

Chwedl mawr yw bod mis yn Lloegr,
Fe ddysg merch ifangc lawer o fedrusder,
Siarad *modest* a phletio'i mfn,
'Run fath a thwll tin y *Tanner*.

Yn Nghymru mae llawer coegen
A roe goron i *blayers* Llundain,
Ac ni all i Gymro fforddio o'i phwrs,
Un geiniog, heb gwrs o gynen.

Ac y mae llawer crach-gynffongi
Na hidiai fo gownen er taflu gini
Am le i hwrio neu gamblio ar gais
Ynghwmni rhyw Ssais lled osi.

A rhyfedd fel y dywed cwmni o Gymru,
O the English song is verry pretty!
Ac yn agor eu cegau a'u clemau clws,
A'r gorws yn gwehyru.

Dyma fel y byddant yn canu ac yn bloeddio,
Heb air o gysondeb, yn berwi ac yn soundio;
A phe baid am ganu Cymraeg yn sôn
Ni ddeallai'r gwyr mwynion mōno.

Mae hyn yn helynt aflan
Fyn'd o'r hen Gymraeg mor egwan;
Ni cheiff hi mo'i pherchi mewn bryn na phant,
Heno gan ei phlant ei hunan.

ENTER TRAETHYDD.

What is this gibberish, foolish fellow?

Tom. Dam i sîl Satan, dyma Sais eto,

Graith. Do not talk nonsense.

Tom. Taw, dacw Nancy,

Siarad Gymraeg, neu ddos i'th grogi.

'Does yma fawr o Saesoneg glân,
Ond ychydig gan Sian a Chadi.

Traeth. Paham 'rwyf yn lladd ar Saes'neg mor greu-

Tom. Lladd yr wyf fi ar Gymry beilchion (lon
Sy'n ceisio gwneuthur pob dyfeis,
I fod mor *bressise*, â'r Saeson.

Onid ellir dysgu Saes'neg ar gorau
Ac heb fyn'd yn feilchion, goegion gegau,
I wadu na fedront ddim yn faith,
Mewn moment, o Iaith eu mamau. (achlysur?)

Traeth. Mae 'marferiad, oni chlywsoch, yn llawer

Tom. Wel ydyw, miwn eto, lle bo duedd mewn natur,
Ond am fod yn dduw, 'nol gair yr hen walch,
A chodi, mae balch bechadur.

Traeth. 'Does fai ar neb am godi 'n raddol,
Eel bo'u sefyllfa'n gyfatebol.

Tom. Yn mhob sefyllfa fe ddylai ddyn
Adnabod ei hun yn wahanol.

Traeth. Doethineb trwy degwch ymhob galwedigaeth
Sy'n tynu'n gysonaidd rai tan ei gwasanaeth;
Lleferydd a gwyneb sy'n dangos gwhaniaeth;
Mae dynion yn dirwyn at ddull eu gwladwriaeth

Tom. Wel, felly, nid celwydd caled
Yw barn dostaf y Methodistiaid;
Mae gwladwyr y Cythraul yn hawdd eu cael,
Wrth eu bywyd gwael, i'w gweled.

Mae'r meddwon a'r lladron tan un llywodraeth
Y tyngwyr, a'r rhegwyr, a phob rhywogaeth,
Dilynwyr pechod yn gyttun,
Yn deulu o'r un gwaedoliaeth.

Traeth. Mae pob rhyw fasweddwyr mewn pechod
yn suddo.

Tom. Wel beth ydyw maswedd? rhag ofn mod i'n
Os oes genyt reswm, dod yn ei le, (misio
Er undyn, mi wnaf finau wrando.

Traeth. Mae'r enw gair maswedd fel hyn i'w gymwy
Am bob pethau allanol eill natur eu llunio, (o
Gwagedd o wagedd, am aswedd, mewn mesur,
Heb waith y dyn newydd, yw pobpeth dan awyr.

Maswedd cnawd esmwyth sy'n adwyth niweidiol
 Yn sïo rhai'n Sion ar foddion crefyddol,
 Canu a gweddio, a gweithio pregethau; (usau.
 Fe gyfrif Duw'n faswedd holl ffrwyth eu gwef-

Tom. Os oes maswedd mewn pregethau,
 Ni waeth nyni na hwythau;
 Os gallwn gario cydwybod glir,
 I draethu'r gwir, bob geiriau.

O ran mae'r gair gwir, drwy gariad,
 Yn haeddu beunydd bob derbyniad,
 Mewn amser ac allan o amser llawn,
 Mae'n ddidwyll ac iawn ei dd'wediad.

Traeth. Ychydig o gariad sydd mewn geiriau
 A draetho'r ynyddion ar flaenau tafodau;
 Muriau sychion yw'r rhai hyny
 Heb ffydd, fel *morter*, i'w cyd-tymheru.

Mae'r rhai'n yn debyg o ran eu dyben,
 I fynediad y wenfol a'r gornchwiglen,
 Yn troi o gwmpas, er hyny eu cartre
 Sydd un yn y gors a'r llall yn y simae.

Mae hithau'r 'sgyfarnog enwog union
 Yn cnoi ei chil o egni ei chalon,
 Yr un droed â chi yw hi, er hyny,—
 Felly mae buchedd rhai redant i bechu.

Mae eraill o ryw'n fforchogi'r ewin,
 Hyd ffyrdd y duwolion y byddant hwy'n dilyn,
 Heb ddim cnoi cil yn eu genau na'u calon,
 I ddal neu fyfyrion ar dduwiol arferion.

Tom. Wel, sôn am greaduriaid rwy'ti'rwan,
 A gwahanol gyflwr, glân ac aflan,
 Oni ddaeth llenlliain o'r nef i'r llawr,
 Mewn gafael ddirfawr gyfan?

Ac 'roedd pob creaduriaid yn hon yma,
 A glân oedd y cyfan, cofia;
 Ac yr oedd cyhoeddus weddus wâ'dd,
 Heb attal, i ladd a bwyta.

Traeth. Y llenlliain hon yw'r Efyngyl a'i rhyddydd,
 Ond rhaid yw lladd cyn bwyta er bywyd;
 'Does cig na physgod na llafur yn fuddiol,
 Heb eu lladd a'u teri o'u cyflwr naturiol;

A dyma'r porth cyfyng mae gafael y bywyd
Sef marweiddio gweithredoedd y cnawd trwy yr
A dysgu croes Crist, egwyddor crefydd(ysbryd,
Yn ysgol rad y creadur newydd.

Tom. Gan dy fod mor ddoeth, gad i mi glywed
Pa fodd roedd plant Israel yn ysbeilio'r Aiphitiaid
Yn benthycu tlysau ac yn dwyn ar duth,
Heb dalu byth mo'u dyled.

Traeth. Yr aur a'r tlysau a'r gwisgoedd gwychion
Sydd deip o dalentau a doniau dynion,
Rhai ddylyd fenthycu oddiar naturiaeth,
I ogoneddu'r hwn sy berffaith.

Tom. Wel, os tâl benthycu felly,
Gallwn ninau ddawnsio a chanu;
Pe medre'm ni ganmol yr hwn sy'n llawn
Yn rhoi rhinwedd a dawn i hyny.

Traeth. Pob dÿsg a dawn, pob llawn gallineb,
Mae gogoniant y Creawdwr trwyddo'n ateb,
Ond natur dyn, trwy falchder Satan,
Sydd am ogoniant iddo'i hunan.

Tom. Wel ni waeth i ni dewi'n ebrwydd,
Na phe baem ni'n ymddiddan ddeuddydd,
Profi pob peth, a dal yr hyn sy dda,
Ydyw'r ffordd benaf beunydd.

MYNEGEIR Y CHWAREU.

Wel, bellach crybwyllaf mi dystiaf am destyn,
O'r dull yn deg hylwydd mae'r trefniad yn canlyn,
Am Dri Chryfion Byd, ddwys olud, mewn sylw,—
Sef *Tlodi* a *Chariad* ac *Angeu* tra chwervw.

A *Chariad* yw'r hynaf, o chredir yr hanes,
O ran, pan ga'dd gwryw gu fenyw yn ei fynwes,
Ac wedi iddo ei gwympto a'i rwydo ef o'i ry'dyd,
'Roedd *Cariad* yn ddiau'n cywiro'r addewid.

Ond melldith y pechod drwy hynod dveni,
A'r noethni dyledus, wnaeth nyth i *Dlodi*,
Na chaffai ddyn fara, heb chwysu'n llafurus,
Ac *Angau* yn y diwedd, ac ing yn ei dywys.

Ond cryf iawn yw cledi *Tylodi* a dyledion,
Yn boenus iawn beunydd, oer ddeunydd ar ddynion,

Yn gwneyd i rai feddwl am waith a chelfyddyd,
Fel mae gan bawb awydd i gynal eu bywyd.

Ac eirias o gariad wir fwriad arferol
Yw elfen cenedlaeth, naturiaeth daearol,
A chariad gyflawndeg y deg waredigaeth
Sy'n gryfach nac angau'n rheolau marwolaeth.

Ac yma'n ganlynol, allanol ddull hynod,
Cewch beth o gwrs bywyd y byd a'i gybydd-dod,
Drwy wraig afrywiogaidd, flaen daeraidd, flinderus,
A chanddi ddau feibion, yn ddigon eiddigus.

Ac un mab oedd gartref fel hithau yn ei heithaf,
Yn gybydd rhy arw, a hwnw oedd yr hynaf,
A'r ail a gae'r ysgol, drwy rwysg a chymeriad,
A'r peth a wneiff arian, fe'i rhoed yn *Offeiriad*.

'Nol hyn, wedi'r cwbl, y Fam a'i Mab cybydd
A gwymppodd yn galed allan a'u gilydd,
Ag at yr *Offeiriad* hi-âi i fyw yn gorphorol,
Bu yno nes marw mewn enw mwyn unol.

Hi drefnodd ei h'wylllys, drwy hollawl gydsyniad,
Yn anwyl ei pherwyl, i'r Mab oedd *Offeiriad*,
A'r ddau am yr eiddo, mewn cyfraith ymroddodd,
A'r cybydd gofidus, ŵr gwallus, a gollodd.

Fe syrthiodd, wrth erlid, i lid a thylodi,
Ac ar ei ddiweddiad fe ga'dd ei argyhoeddi
Mae'n troi'n edifeirol o'i farwol arferion,
'R hyn fyddai'n ddaionus i bob gradd o ddyinion.

Ac felly'r cwmpeini mae penaf cychwyniad
Yr act wael sydd genym os rhowch chwi fwyn genad,
Gosodwn hi o'ch blaenau ein gorau drwy gariad,
Na ddigiwch, cyd ddygwch, lle ffaelio'n hymddygiad.

[*Exit.*

ENTER SIR TOM TELL TRUTH.

Wel gwir dd'wedodd Satan, mae'n hysbys eto
Bydd dynion fel duwiau, er cael eu han'dwyo,
Mae ffrwyth pren gwybodaeth da a drwg
Yn gwneud cynnw'r amlwg heno.

Mae sw'n am gyfoeth a mawrhydi,
A sw'n diawledig ydyw son am d'lodi,

Heb fawr yn synied a'r ferw saeth,
Y bariaeth sy'n ei beri.

Heblaw'r hen felldith wreiddiol
Sy'n peri t'lodi yn wladol,
Balchder gwyr mawr yn gwasgu'r gwan
Mae hyn yn rhan erwinol.

Balchder sy'n gyru bon ddigon segurlyd
Tua Ffraingc neu Lloegr, i rythu eu llyg'id
I ddysgu ffasiwnau a gwario'n fall,
Ddau mwy mewn g'wall nag a ellid.

Mae ganddynt yn Llundain lawer llawendy,
I droi'r gath yn'r haul i fon'ddigion Cymru,
Play-houses a *Lotteries*, flawtus ffull,
Ac amryw ddull i ddallu.

Ac yn y *play* y cânt hwy eu pluo,
Rhwing hŵrs a *liquors* y bydd eu haur yn slacio,
Rhaid canlyn holl egui cwmpeini pur,
'Ran grandrwydd gwyr yw gwario.

A dyna'r nod, fy 'neidiau,
Mae gwyr mawr stowt yn gwario statiau,
Wrth ddilyn balchder, a'u harfer fel hyn
Peth costus ydyw canlyn castiau.

Ond balchder cyn y collo,
Ei fywoliaeth, (wrth drafaelio)
Nag y cymro fe ronyn llai na'i raid,
Fe geiff y gweiniaid gwyno.

Hel sgammers o Lundain, a llawer o helyntoedd,
A *Landsurveyors* i *reviwio* 'r tiroedd,
A'u mesur hwy drostynt, gwlyb a sych,
Y caeau'n grych, a'r gyrychoedd.

A myn'd a *map* i'r gwr bonheddig,
O bob cyrau, y coed a'r cerig,
Pob cae a ffrith, pob acr a phren,
A ehodi cyn pen ycydig.

Cyhoeddi a galw 'r tenantiaid i'r goleu,
A d'weydyd mewn ecrwch, fod hyn a hyn o acrau,
Ac y myn y meistr tir gael codi ar y rhent,
Mae hyn yn *gonsent* i ddechreu.

A hwythau tenantiaid y bryniau a'r nentydd.
Yn myn'd yn anhywaeth at y ffasiwn newydd,

Wrth glywed eu Saes'neg hwy'n hyny o fan,
Ymron piso gan anhapusrwydd.

Ac yntan'r Stewart nid oedd dim *stayo*,
Ond *Come forth, what else ye Cymro?*
Your land will be set for better pris
Don't you be foolish fellow.

Ac ynteu'r hen Denant bron a diwno,
Heb wybod be' i'w ddweydyd, ond diodde 'i wawdio,
A begio ar un o wyr ei wlad,
Mewn tristwch, siarad trsto.

Ac f' allai hwnw, 'r unfath a Haman,
Yn cymryd y tyddyn iddo'i hunan,
A'r dynan truan, gan ffalsder trwch,
Yn ei d'wllwch, raid fyn'd allan.

Ac felly dyna hwnw'n gorfod myned,
Wedi colli'i fywioliaeth iddo 'i hun a'i 'nifeiliad,
Ac fe allai y plant yn myn'd ar y plwy'
Yn bwysau mwy ar denantiaid.

Dyna'r meistr a'i denant heb gael dim daioni,
Ond codi'r Stewardiaid yn falch ac ystwrddi,
'D oes ryfedd beynydd yn y byd
Fod cymaint o lid a th'lodi.

ENTER GWIDDANES DLODI.

Pwy sydd yma'n cadw i lol,
Fel gylfinir a'i glol fynu.

Tom. Pwy ydych chwithau, ai merch y gwr drwg,
A ga'dd yn y mwg ei magu?

Gwidd. Myfi ydyw'r wyddan sy'n gwneud i rai
waeddi,

'Rwy'n gryfa trwy wledydd, fe'm gelwir i Tlodi.

Tom. Braidd na waeddw'n i fy hun,
Wrth edrych fath un â thydi.

Gwidd. Myfi ydyw'r hynaf y'mhob trueni.
Fe'm ganwyd yn nyth y newyn a'r noethni,
Pan ddarfu i Adda lyngcu ei damaid
Myfi oedd y gyntaf a welodd ê â'i lygaid.

Ac fe i rhoed ef dan berygl na chae ddim bara,
Ond trwy chwys ei wyneb o'm hachos i yna,

Ac byth yn fy magl rwy'n dal rhai a'm dwylo,
Mewn gofid ac angen oni fyddant hwy'n gwingo.

Ymfrostied gwyr mawrion yn eu parch a'u
cymeriad, (ganed,
'Roeddynt hwythau'n dlodion gweinion pan 'i
Oni pheidiant ag ymwychu, a gyru a gwario,
Fel na allont hwy ateb, ânt felly eto.

Tom. Oni ddarfu rai brynu tiroedd, dan godi eu torau
Erbyn agor llygaid, ni thelynt mo'r llogau,
Achos enw mawr a bychan fudd,
Mae'r Aerod bob dydd yn dioddau.

Nhwy aethant 'run fywoliaeth a Gutto felyn,
Ychydig laeth a hyny'n enwyn,
Oni cheir gwaith corddi, fel y d'wedodd fy nain,
Hi a fydd yu o fain am fenyn.

Gwidd. Ond balchder yn ymgyraedd gormod,
A melldith drygioni pechod,
A wneiff, yn ddwys, ymhen oes neu ddwy,
Feddiannau mwy'n furddynod.

Tom. Mae aml blas mawr yn Nghymru heno,
Mae'n chwith i lawer un fynd heibio,
Lle byddai fon'ddigion hardd eu drych,
A gwein'dogion gwych yn trigo.

Gwidd. Hwylanwent foliau gormeswyr ffeilsion,
Yn lle rhoi elusen i bobl dlodion;
'Does ryfedd bod melldith ar dir a thai,
I ddigwydd i rai hon'ddigion.

Tom. Wel mae nbw i'w canmol draw ac yma,
Am roi cynhaliaeth i'w cŵn hela,
Maent yn llawnach o ffawd, mi glywais sôn,
Yn eu boliau na thylodion y Bala.

Gwidd. Ond anllywodraeth, mewn dull anfeidrol,
Sy'n rhoi i mi le i feistroli pobol,
Balchder ac oferedd sy'n cyfeirio,
Yn tynu 'neiliaid i mi tan fy nwylo.

Rhyfedd heno i'w gofio ar gyfer,
Mor ddau wynebog ydyw balchder,
Gyru rhai i weithio, gyru rhai'n lladron,
Pob castiau diawledig rhag mynd yn dlodion.

Fy ofn i sy'n peri i rai godi'r boreu,
 Rhai i'w gor'chwylion, rhai i'w siwrneiau,
 A'r plaut bach fydd yn llefain rhag llafur fy ngafel,
 A'r hen bobl yn rhedeg bron colli'r hoedel.

Myfi ydyw'r hynotaf mewn ffair a marchnad,
 Fe edrych pawb arna'i â chornel eu llygad ;
 Rhag fy ofn i y bydd y rhai cryfaf
 Yn cael bargeinion ar ddwylo'r rhai gwanaf.

Oh! Meistres erwinol wyf fi ar weiniaid ;
 Mi dorais hyd y Nentydd yma, lawer o denantiaid,
 Rhai fyddai'n meistrolï mewn balchder ac oferedd,
 Ond myfi fydd eu meistres nhwy yn y diwedd.

Mi a welais yma Ffarmwyr yn byw'n drefnau
 Yn dilyn ceiliogod a cheffylau *races* ;
 Ond pan ddown i atynt yn f'awdurdod,
 Fe fyddai melyn gael canlyn mulod.

Ac mi welais rai yn rhwysg eu cywaeth,
 Yn wyr synwyrolaf trwy'r gym'dogaeth.
 Ond pan ddown i unwaith yn feistres arnyn'
 Ni fedde nhw synwyr un briwsionyn.

Ac mi weiais wyr gorchestol arw,
 Yn perchen tiroedd yn fawr iawn eu twrw,
 Yn mynd, rhai ar y plwyf, a'r lleill i'r *Fact'ry*,
 A'r lleill i'r *Jél* i isel oesi.

A'r merched mwyn gymen a'r llygaid main gwamal
 Sydd heddyw mor sosi, yn caru ac yn sisial,
 Pan ddeloch i'r bwth bach yn gwla'ch gwely,
 Chwi fyddwch yn llafar na thalwch mo'ch llyfu.

Yrwan mewn sadrwydd mae i chwi gonsidro,
 Os myfi fydd y feistres, mi wnaf i chwi fwstro,
 Heb ddim *byclau plated* na gywn brith *plotiog*,
 Na ffedogau gwynion, mi ddaliaf fi geiniog.

Y glôg sidan ddu a'r *wyer* capiau,
 A'r *balloon bonnets* a'r *hetiau* ribanau,
 A'r *handkerchiefs* mawr a'r *ruffles* dwbwl,
 O myfi yn y funud a'ch gwisgat chwi'n fanwl.

Ac yn lle *tea* i'ch *breakwest* mi fyddaf fi'n eich pricio
 I gym'ryd pottes gwyn bach, neu laeth wedi dwymno,

Brywes dwfr a halen neu gawl erfin,
Bydd weithiau'n anodd gael pen wnionyn.

Tom. Wel wfft i'ch calon gyda'ch ceuled
Onid y'ch yn ddi gwilydd roi *ffare* mor galed.

Gwidd. Os daw ataf fi na mawr na mân,
Yn waelaidd hwy gan weled.

Tom. Mae'n dost i chwi eu bwlio'n hwy'n weigion
eu boliau.

Gwidd. Fe allai ca'n hwy fara, os codant yn forau;
Ond ni wiw i un o honynt edrych yn ddig—
Ni cha'n hwy fawr gig i'w cegau.

Hwy ga'n' frwchan i'w cinio, a llith, a chawl
Uwd a llymru, a bytatws a llaeth enwyn, (cenin
A chaws gan g'leted a lledr clytio,
Wiw son am ymenyn na disgwyl mono.

Tom. Ateliwch eich tafod;—'does ond Sir Aberteifi,
A pheth o Sir Gaer, fel yna'n rhagori.

Gwidd. Mae bywioliaeth galed lawer tro,
Trwy wledydd lle bo tlodi.

Tom. Wel gan i chwi fwgwth cymaint aflwydd,
Mae rhyw alwedigaeth i bawb yn digwydd;
Rhaid i bawb geisio offer i ymladd am fwyd,
A'r crydd gael mynawyd newydd.

Gwidd. Wel un o chwedlau gwir y Saeson
Necessity is the mother of Invention,
Ni wnae neb fawr, mi wrantaf fi,
Ond rhag tylodi a dyledion.

Mi yf ydyw'r *Fadam*, 'rwyf fel gwialen fedw,
Mi chwipiaf ac a giciaf rai yma ac acw,
Mi wnae i bawb gychwyn tra fo hoedl ac iechyd,
Neu os trinia'n hwy ddiogi, hwy dro'n iddygyd,

Tom. Chwi yrasooh rai i'w crogi,
Rhwing balchder a gofidi
Ac rhagoch chwi mewn cyni caeth
Rhyfeddod aeth i foddi.

A llawer lodes ledrydd
Aeth i hwrio o'ch herwydd,
Rhai i ladratta, gwaetha gwyn,
A'r lleill yn ca'lyn celwydd.

Gwidd. Onid yw merched mor aflawen.

Yn eu hynod andwyo 'u hunain,
Trwy ddilyn gormod chwant y cnawd,
Yn wynebu'n dylawd anibenn.

A gwagedd gwaeledd, 'rydwy'n gweled,
Y cau a'r gwasgu mae gwisgiad merched,
Tra fo'r llanerch wantan heb ei chau,
Rhwing eu garrau nhw yn agored.

Tom. Wel dyna ddarluniad unig
O'r ffrwythau gwaharddeddig,
A'r gorchymyn sydd yn gofyn bod
Ufudd-dod nod enwedig.

O ran y peth sydd wan a meddal,
Mae'n fwy gogoniant iddo gael ei gynal;
Nid rhaid i'r iach wrth feddyg drud,
Tra tyfo mewn bywyd diofal.

Nid rhaid diolch i'r lladron lledrydd,
Os ffaelia'n hwy gael gan gloiau neu welydd,
Mwy nag rhaid diolch mewn llawer lle,
I faeni meline am lonydd.

Ond hawdd cadw cestyll neu'r cistiau fo heb daro
'Does orchest oruchel ond i'r hwn a ymdrecho,
Ac ymladdo'n erbyn dyn a Diawl
Yn ollawl ac a ynillo

Gwidd. Nid pobl ymdrechgar hagar eu hagwedd,
Ond rhai pur galon weiniad sydd gan i yn fy ngwin-
Rhai llyrfion ymddygiad, a llawer o ddogi, [edd,
Sy fynycha'n cael eu rhwydo a'i dyludo idylodi.

Mae mhobl i, druain, bob rhyw droiau,
Yn hawdd eu hadnabod wrth wedd eu hwynebau
Sef y dua ei grys, a'r gwyna ei esgid,
A'r siwrwd ei gefen fydd yn siarad mewn gofid.

Mr. Bwccwl o bob pâr, a Mr. Cysgu'n hir y boreu,
A Mr. Clox tinau agored. a Mr. Clos tan ei arau,
A Mr. Di *fforcest*, a Mr. Gwag ei *ffircen*,
A Mr. Lled lonydd, a Mr. Llwyd wlanen.

A gwagedd lled hollawl, sef Madam Gywn tyllog
A Madam Bess Geglom, a Sian Bais Gaglog,
A Madam Oer lewyrch, a Madam War leuog,
A Madam Geunor ddrewllyd, a Madam Gwen
ddrylliog.

Tom. Gwared ni rhagoch gyda'ch rhigwm,
Onid ydych chwi rywsut, yn feistres ddireswm;
Gwae yn y byd fo danoch chwi'n byw,
'Ran caled ydyw 'ch cwlwm.

Gwidd. 'Does un frenhines, hanes hynod,
Na brenin mewn dewrder, gymaint ei awdurdod
Rwy'n fwy dychrynadwy, 'n gwneud i rai och-
Nag un rhyfelwr a fu 'rioed yn trafaelio. ('neidio
Rwy'n gryfach na'r cornwyd, a'r llif mawr yn Carno
Rwy'n gryfach na'r cestyll fu amryw yn eu costio
Rwi'n gryfach na'r tân, na'r crogbren neu'r tenyn,
Ran fe eir trwy bob niwed rhag tlodi a newyn.

Y cyfreithwyr a frathant, a gafaelant yn filen,
Ond ni fwy gen i am danynt nag mewn coes
rhedynen,
Er cyhyd eu gwinedd, a chymaint eu gweniaeth,
Ni wnant ar dlodi ond ychydig deiladaeth.

Tom. Mae gwyr cedyrn ag aur i'w codau
Yn feistradoedd arnoch chwithau.

Gwidd. Yn feistradoedd arna i 'does fawr i gyd,
Pe gwelid y byd mewn golau. [stodur,
Mae llawer o feistradoedd, pe rhoid llaw tan eu
A'm ffwndwr i i'w dilyn, pan ffeindir eu dolur;
Ond harddwch eu dillad yw eu heddwch nhw 'i
dwylllo, [cogio
Fel 'nifeiliaid i'r cigydd, wrth feirw maent yn

Tom. Mae rhai, drwy gamwedd, draw ag yma
Yn myn'd yn dlodion er eu gwaetha;—
Anlwc yn y byd, neu gam gan wyr mawr,
Yn eu gwthio nhw i lawr i'w heitha.

Ac mae llawer o stewardiaid mor bell eu stordyn
Yn fil gwaeth na meistr, yn ymledu ac ymestyn,
Y nhw ydyw'r duwiau raid addoli dan ser,
Os myner byw'n dyner danynt'.

Mae llawer o boblach weiniaid
Yn ofni cael eu sturdio gan ystiwardiaid,
Yn fwy nag yr ofnant mewn odid radd,
Hwnw eill ladd eu heuaid.

Gwidd. Mae achos i ofni gwyr mawr a'u stewardiaid,
Ran prin ceiff rhai amser i feddwl am enad,

Rhwng cyfraith stewardiaid, a balchder gwyr
mawrion, (ffon.

Mae tenant i'w ganffod fel rhwng diawl a'i gyn.

Tom. Nid oes odid wr o gyfraith heno,
Na bo fe'n Ystiwart, i ddal a chystwyo,
Ac ambell gnâf arall a wneiff y tro,
Neu *shiopwr* a fedro *sharpio*.

Mae stiwardiaid y miners yn onest mewn man
Yn pesgi'n fstonegog wrth atal cyflogau, (au
Nid y rhai yslafio fwya'n unfryd
Sy'n cyrraedd y byd goreu.

Gwidd. Gad lonydd i'r stiwardiaid a'r cyfreithwyr
hefyd,
Y nhwsy'n rhoi 'neiliaid yn fy nwylo'i bob enyd;
Oni bae rai'n pinsio, ac yn robio'n rheibus,
Ni fyddai'r wlad fyth mor anghenus.

Tom. Mai balchder serth, echrysnerth, a chroesni
Sy'n tynu dial, ni waeth ini dewi,
Ni byddai'r cyfreithwyr ddim ymhob ffræ,
A'u gwinedd oni bae ddrygioni.

Mae'r Diawl, fel melinydd, yn troi gelyniaeth
Olwyn gocos chwant yn nbroell naturiaeth,
Ni cheir fyth heddwch nag esmwythad.
Heb ryw gyfnewidiad odiaeth.

Gwidd. Rwy' fi'n cyfnewid ac yn ystwytho,
Gyru'r baich heb ei waethaf, a'r diog i weithio,
Gyru'r afradloniaid i feddwl am gartre',
A gwneud i lawer aiferwr i deimlo'u cyflyrau.

Tom. Tro ben ar dy chwedlau, a thaw a chodlo,
Onid e hi a'n gofrestr hwy na flair *Fristo*.
Nid ydyw rhuo'r un peth, fel hyn,
Bleser i undyn wrando.

Gwidd. Dyma fel y mae, ni waeth imi dewi,
Mae llawer yn flin o gwmni tlodi;
Ond rhaid i rai heb waetha yn eu gên,
Yn aml roi pawen imi. [Exit.

Tom. Gwir a ddywed Gaenor o Dafarn y gunog,
Hir ac anghynes ydyw chwedl yr anghenog;
Ond i ddangos mawrhydi tlodi yn lân,
Mae gan inau gân, yn enwog.

CANU AR Y DDIMEU GOCH.

POB dyn a dynes gynes gall,
 Mae'n ddiwall mewn addewid,
 Fod rhaid i bawb sy'n chwennych byw
 Feddwl am ryw gelfyddyd;
 Rhai i'r môr, a rhai i'r mynydd,
 Rhai i'r glynnau, rhai i'r glennydd,
 Rhag tylodi i ymboeni beunydd;
 Rhai yn hwsmy'n drwy bob d'rysni,
 Rhai 'mhob swyddau rhag ofn soddi,
 Helynt lidiog rhag tylodi.

Y gôf a'r saer ar gyfer sydd,
 A thylwyth Crydd a Thailiwr,
 Y Tanner crych, a'r tynwr croen,
 A'r Gwydd mewn poen a'r Pannwr..
 A'r Tinceriaid hwyntau'n curo,
 A'r melinydd yn mileinio
 Ac yn tolli cymaint allo,
 Brickle'rs, Masiwn, yn dra mist,
 Nailers, Tilers, yn cyd holi,
 Pob teiladaeth rhag tylodi.

A gwyr y Gyfraith croes eu bryd,
 Hoff rydyd, a'r 'Ffeiriadau,
 Degymwyr, trethwyr, pwythwyr pur,
 A siapus wyr y siopau,
 Clochydion, Doctors, yn cyd-actio,
 Ac yntau'r Cigydd a'r gwynt cogio,
 Weithiau'n lladd, ac weithiau'n blingo ;
 Llinwr, Turner, yn llawn taerni,
 Glwfer, Sadler, sodlwr gwisgi,
 Pawb a lediant rhag tylodi.

Chwarelwr, Tyrchwr, calchwr certh,
 A'r caŵwr perth, a'r porthwr,
 Exciseman, Supervisor pric,
 Wyr byrbwyll dric, a'r Barbwr,
 Brazier, Cutler, Pedler, Pwdlwr,
 Colier, Miner, Painter, Printiwr,
 Lliwydd, Cribydd, Pibydd, Pobwr,
 Cario potiau, cweirio pwti,
 A physgotta, a gwneyd basgedi,
 Pob teiladaeth rhag tylodi.

Y cariwr coed a'r Llifwr cul,
 A'r gwladaidd ful ysglodion,
 Baledwrs, Racsiwrs, Clocsiwrs clau,
 A'r Jaggers gloiau glewion;
 Pilio rhisgl, a thori a rhasglo,
 Cordio a lloggi, cario a llusgo,
 Forge-men, Founders, pawb ffwandro,
 Llongwyr, Sawdwyr, sydyn, gwisgi,
 A swyddogion sydd i'w rhegi,
 Rhwygant wledydd rhag tylodi.

Tafarnwr, Bragwr, trychwr trwm,
 A'r Nodwr llwm anwydog,
 Sebonwr, Canwyllwr, gweithiwr gwer,
 Y Swîp, a Chobler chwiblog,
 Hetiwr, Clociwr, Garddwr gwirdda,
 Y towr a'r Cowper taer eu copa,
 A'r Turnpeiciwr a'r trwyn picca,
 Troliau gannoedd a gwageni,
 A gwyr yr hoitiau a'u gwarau ati,
 Yn gyru'n llidiog rhag tylodi.

Rhai yn cerdded gwlad a thre',
 A rhyw goeg wyrthiau i'w gwerthu;
 Rhai yn crio yn nrysau tai,
 Mewn cwynion,—a rhai 'n canu;
 Telyniwr, Ffidler, Joci, Porthmon,
 Baili, Cwnstabl, Jailer, Hangmon,
 Rhai'n dwyllodrus, a rhai 'n lladron,
 Felly beunydd mae rhai 'n ymboeni
 Mewn rhyw alwad yn rheoli,
 Rhwyg taledig, rhag tylodi.

A swm y cwbl drwbl drud,
 O boenau'r bywyd beunydd,
 Yw'n dysgu ni drwy dasg a wnaeth
 Gair odiaeth y Creawdydd;
 Beth ond tylodi a phob hynt lidiog,
 Sy'n galw dynion er gwel'd enwog
 Allu llaw yr Hollalluog;
 Am bob doethineb a berthynant,
 Y'mhob celfyddyd, hap coelfeddiant,
 DUW a ddylai gael addoliant.

ENTER RINALLT ARIANOG, Y CYBYDD.

Wel rhyfedd y canu bydd pob cacynen,

Ac yn pwnio rhyw hanes wrth eu pen eu hunain!

Tom. Arefwch beth, yr oeddwn i'n bur,

Yn canu'r gwir yn gywrain.

Rin. Nid anaml y gwelir yn unman,

Na fo bawb yn wahanol yn ei ganmol ei hunan.

Tom. Wel, hoff genych chwithau ganmol eich côd,

A chyraedd clod i'ch arian.

Rinallt. Nid oes dim drwy'r byd presenol

Cymmaint yn haeddu eu canmol;

Ond am yr arian wiwlan wawr,

Mae bychain a mawr yn ymorol.

Ond am yr arian mae'r dymer erwin,

Mewn Esgobion a 'Ffeiriaid, a phobl gyffredin;

D'oes dim yn gwneud lles, mi gymraf fy llw,

Mwy breiniol na delw'r brenin.

Tom. Wel, mi wn fy hunan, heb wahanu

Mai delw'r brenin a dâl i brynu;

Ond mae arian drwg mewn gwlad, a thre',

Gwedi i ryw bethe eu bathu.

Rinallt. Mae'n dda genyf arian yn fy nghalon,

Pe medrwn ine 'u bwrw mi leiciwn yn burion;

Mi wnawn yn rhyfedd yn fy rhan,

O *guineas* ac arian gwynion.

Tom. Nid oes yn gyfreithlon wedi eu trefnu

Ond arian y brenin i werthu ac i brynu;

D'yw'r lleill ond rhagrith, yn lle gwir hawl,

'Ddyfeisiodd y Diawl a'i deulu.

Pob hudolaeth y mae pawb i'w dilya

I ddianrhydeddu enw'r brenin,

Sydd megis rhith o grefydd bás

Heb roddiad gras yn wreiddyn.

Mae arian brenin Cymru a Lloegr

Yn deip o'r fendith sy'n talu cyfiawnder;

Nid yw heb raslon gyfreithlon fryd,

Ein dyfais i gyd ond ofer.

Rhaid i'r Cristion cywir wastad

Ddal cywrain ddelw y cariad,

'Run modd ac y deil rhwng dyn a dŷ,

Arian y brenin bryniad.

Rinallt. Rhyfedd y cymeraist mewn cymhariaeth,
Yr arian anwyl yn dext pregeth ;
Ond mî wn nad oes mewn gwlad na thre'
Gysonach llyfrau gwasanaeth.

A gwyn ei fyd y bawen a gasglo bower,
O! na fedrwn eu mudo, heb na rhif na meder,
Mae'n hawdd imi dd'allt mae nhw sy'n dduw,
A Nefoedd, gan amryw nifer.

Tom. Pwy bynag sy a'i dduw goruchel,
Na'i Nefoedd mewn un afel,
Heblaw yn y gwir air cywir cu,
Fe geiff ei nesh'n isel.

Mae llawr yn dewis duwiau
Mewn cywaeth yn y tai, neu'r caeau,
Yn eu cattel, neu llafur, peth bynag llai,
Ac mae ffoledd rhai 'n eu ceffylau.

Ac mae llawer a'u pleser hyd y trefydd a'r plasau,
Lle mae'r byd a'i belydr, eu duw yw eu boliau,
A duw'r godinebwyr yw merched glàn,
Hwy canlynan ar eu gliniau.

Lle bynag bo'r calonau, a llwybr y canlyniad,
Yno mae'r trysorau, waeth tewi na siarad,
Mae gan bawb ryw dduw wrth ei feddwl ei huu,
I ddilyn ei addoliad.

Rinallt. Wel, ni wiw taeru na chadw twrw,
Fy nuw i ydyw'r arian byth hyd farw,
Nid oes genyf hyder mewn dim o hyd
Ond golud y byd ac elw.

Tom. Wel, *Tom tell truth* ydwyf fi trwy'r eitha';
Waeth rhoi'r gwir tuag atoch heb fod yn gwtâ
Tra f'o chwi'n caru'ch clod a'ch mawl,
A'ch pywer, mae'r Diawl a'ch pia.

Rinallt. Wel, chwedl garw yn mhob ryw gyrion,
Ddewred a doethed ydyw pob cymdeithion ;
Mae'n gas i ddynion glywed cymaint eu hairs
Fydd rhyw *ysgolars* gwaelion.

A rhyfedd fel y cyfyd ysgolheigion tîn caeau,
Ffyliad penau 'gored, fu'n cerdded y cyrddau,
Cheiff dynion ar fusnes ddim elste'n hir,
Na fœrnir hwy mewn tafarnau.

Mae *Cyriadox* neu ryw goeg rediaeth,
Ymhob cwmni y nhw ydyw'r penaeth,
Ni fydd dŷn fymryn yn ei fyw,
Heb rigwm o ryw bregeth.

O ! pobl dostion ydyw'r Methodistiad,
Rhuo am eu crefydd y bydda' nhw bob crafiad,
Ceir clywed y carpiâu câs eu cwch
Yn swnio'n uwch na'r Personiaid.

Fe geir gan y Person, yn llon, mewn llawenydd,
Rywstori ddiniwaid, neu ddysgwrs papur newydd,
Yn fwynach na'r llymgwn sy'n mhob lle
A'r 'Sgrythyre' yn eu penau, beunydd.

Mae'r Personiaid enwog 'r un fath a dynion,
Y Suliau a'r wythnosau am y byd a'i fusnesion,
Ni dd'wedant hwy'n amser air o'i le,
Oni bydd y degymau'n geimion.

Ond gyda gwr ag arian gwneir popeth ar gorau,
'Ran gwell gan y person gwmni gwyr y pyrsau,
Na'r carpiâu tylodion sy hyd y wlâd,
Yn cadw nâd am eu 'neidiau.

Sonian a chrafan am dduwioldeb a chrefydd;
Ni wn i fawr am dani, beth bynag yw ei deunydd,
Ond cymaint a welais neu a dreiais i o droiau,
Am bob gwr ag arian doe drwyddi hi ar gorau.

Er son am ddoethineb, a rhyw drwst o'r fath hono,
Arian ydyw'r cwbl, hwy ânt yn deg heibio,
Pe bae bobl dlodion a'u synwyr mor lydan,
Ni chânt fyth eu bwriad tra fythont heb arian.

ENTER LOWRI LEW.

A glywi di, Rinallt, onid wyt yn erwinol?
Fod yn sefyll ac yn rhuo fel hyn y'mhen 'r heol.

Rin. A glywch chwithau, Mam, 'r hen drwyn dig
Ond ydych yn ffyrnig, uffernol.

Low. Pwy ddrwg sy ar y bachgen milain ei gymalau
Rhoi coegni i'th fam sy ar ei gorau;
Oni bae mod i'n wreigen lew gynddeiriog,
Ni fuasit ti, Rinallt, byth mor arianog.

Rin. Paham y rhaid i chwi edliw a chodlo,
Am fynd yn g'waethog, ond myfioedd yn gweithio;

Ni wnaethoch chwi fawr at fynd yn g'waethog
Oni ddygech chwi dipyn oddiar gymydog.

Low. O! taw a son, fy machgen, am ladrad,
I g'wilyddio dy frawd sydd yn Offeiriad;
Lle b'o ŵr boneddig ar ben eiddo,
'Does dim wrthunach na thrwst fath hono.

Rin. Bon'ddigion braf ydych chwi ac yntau,
Diolch mawr i mi am fod gartreu;
Oni bae i mi weithio a ffyrnigo'n eger,
Ni thal'sai'ch bon'geiddrwydd chwi mor llawer.

Low. Onid oedd dy Dad a minau'n boenus,
Yn gweithio cyn d'eni di'n ddigon daionns,
Wedi prynu tir, a chasglu llawer,
Cyn i ti ddysgu sychu dy grwper.

Ac nid oeddwn i ddim, mi fynd i chwi wybod,
Yn myn'd i'm priodi fel pob chwilenod;
Mi fu'm i saith mlynedd yn sêth ymloni,
Heb son am danat ti cyn d'eni.

'Roedd dy dad a minau'r nos yn ymuno,
I droigwrthban rhyngom, rhag ofn doe rhyw wingo.
Ac os ae fe milain am ryw dro 'smala,
(A'i natur yn awchus) y fi droe'n ucha'.

Rin. I grogi'r neb ŵyr, gan eich bod mor ddygyn,
Os gwn i pa fodd y cawsoch chwi blentyn.

Low. Mi dd'weda i ti'n union, fy machgen anwyl,
Canwaith bu'n erchyll gan dy dad ffasiwn orchwyl

Ond pan oedd marchuad ddrud er's talwm,
Fe feddwodd rywsut yn ddireswm;

Ac yn y *stabl* bu caffio wrth drin y ceffyl,
Beth bynag mi sefais wrth fod yn rhy suful.

'Roedd dy Dad mor ddaionus, newydd i'w enaid,
Fe ddae'r flwyddyn hono bob peth ar ei ganfed,
Buwch a dau lo, a'th dithau yn drydydd,
Ni fu acw 'rioed y ffasiwn gynydd.

Ac felly megais i di, fy machgen,
Ar unwaith â'r lloiau'n ddigon llawen,
A'th rwymo ar fy nghefn y byddwn i nyddu,
Oni fyddit ti'n fy mhiso i'n wlyb diferu.

Ond roedd byd mwy diosaf wrth fagu'th frawd Ifan
Mi eis i gadw morwyn, fe gostiodd im' arian;

Ac o ddweud iti'r hanes, f'aeth dy Dad ar hono,
Fe fu'r hen glapio'r mater, rhag drwg mwy eto.

Rin. A glywch chwi, mam, heb gam ymgomio,
Fe ga'dd Ifan sonheddig acw lawer o'n heiddo,
Rhwing ei gadw'n 'r ysgol, a phob rhw esgus,
Mi wn i'n ddigwestiwn ei fod ê'n bur gostus.

Low. Onid oedd y cwbl cyd-rhyngom pan fu'ch tad
'Roedd raid felly'r haner ddigwydd i hwnw, (farw,
Ac fi oedd yscutor, dda onor, ddaionus,
Onid allaf fi, felly, wneuthur fy'wllys.

Rin. Soniwch am eich wllys, mi'ch gwna chwi'n ar-
Oni chaf i'm gafael y cwbl sydd gyfion, [chollion
Gan ei myn'd hi cyn belled, pe baech yn anmhwyllo
Ni chewch ond y traian, ni wiw 'chwi mor treio.

Low. Hold yno, weithian, gwna dy waethaf,
Myn y gwr o Rutbiu, mi gariaf fi'r eithaf,
Ni chei di lwy gwta gan i, 'r hen lygotwr,
Am iti gynyg gwneud yma gynwr.

Rin. Mi glywn ar fy nghalon oni bai rhag fy ngh'wil-
Yr hwch annuwiol, roi i chwi ywn newydd, [ydd,
Merciwch chwi, hefyd, ni wna'f fi lai na chofio,
Os deliwch ataf, na thala'i chwi eto. *Exit.*

Low. Dy waethaf di, Rinallt, ni wiw iti draenio,
Ni 'rosai ddim rhagor, i gym'ryd fy nghrugo,
Mi 'madawaf â'r lleidr, cyn cymrwyf golledion,
Af at fy mab arall, ac a fyddaf fyw'n burion.

Mi gesglais arian a phob trysorau,
Ni choeliai neb gystal ydyw rhai o'r hen gistiau,
Mi guddiais arian lle na w'yr yr hen Syre; (gore.
Peth garw ydyw garwch, mi ddo i drwyddi hi ar
'D oes dim yn fy fecsio, mi golliais hen facsen,
Oedd ynddi'n hi ragor na deg punt ar hugien,
Ond ni hidia'i fytaten, mae can punt eto,
Genyf mewn bwndel tan walblaid y bondo.

Mae deg punt, yn swrcwd, wedi gwino'n fy syrcyn,
Ac ugain mewn maneg, tu draw i'r gist 'menyn;
O na welwn i'r mab sydd geny'n Offeiriad:—
Mae lwc imi, o'r diwedd,—dyma fe'n dywad.

ENTER MR. EVAN OFFEIRIAD.

Eich bendith fy mam, 'rwyf fi'n ei ofyn.

Rin. Dyma ragor cynddeiriog rhwng dau blentyn,
Un yn ymostwng yma i mi,
A'r llall yn fy rhegi; O! rogun.

Ifan. What was the matter, dear Mother?

Low. O siarad Gymraeg, 'rwyf mewn natur hagar,
O ran dy frawd Rinallt, aeth yn waeth na draenog
I fygwth fy nghuro i'n annghrugarog.

Ifan. O dear, Mother, beth yw'r cythryfwl?

Low. Nid wyf mor fyddar ag mae rhai'n ei feddwl,
Mi glywa' ac mi wela'r peth leiciwyf fy hun,
'Rwy'n o sydyn ar fy sawdl.

Ifan. Beth aeth rhwng Rinallt a chwithau 'rwan?

Low. Wel, o'th achos di 'roedd e'n erthychan,
Ac yn ysgowlio â mi, rhag ofn fy mod
Yn dirwyn it' ormod arian.

Ifan. Well, I don't care, I'll do ar goreu;
Gwell i chwi, Mam, dd'od gyda fi adreu;
Cewch barch mewn henaint, hynod ddrych,
A lliwdeg wych ddilladau.

Low. Mae dy wraig di'n Saesnes, fy machgen cryno,
Ni fedraf fi siarad gair â hono.

Ifan. Mi gadwaf forwyn deg ar dwyn,
At undeb mwyn, i'ch tendio.

Low. Cadw imi forwyn, 'delwi byth i Lanfwrog,
Oni fyddaf drwy orchest, yn hen wraig ardderchog;
Mi ga' ngolchi drwy sebon, rhag edrych yn *shaby*.
Oni fyddai gan laned ag unferch y leni.

Mewn dillad newyddion pan weddus ymwisgaf,
Bydd llawer o'm deutu 'n rhyfeddu pwy fyddaf.
Mi ddof, mewn mawrhydi, yn *Lady* dew lydan,
Heb na byd nag ysiafri, os peidia'i ag yslefrian.

Gan gael fy myd cystal, 'delwy fyth i'r castell,
Onid oes ynddwi, 'n ddiochel, gryn lawer o ddi-
Awn adre ein deuwedd, rydwy'n deallt (chell
Y gwnawn ni driniaeth ar dy frawd Rinallt. (*Exit*

Ifan. Fy mam anwyl, rwyf fi'n dymuned,
 Cym'rwch amynedd, yn ol eich myned,
 I drin Rinalt ddrwg ei rôl;
 Dof ar eich ol, rhof chwaliad.

Peth mawr yw rhediad a mawrhydi :
 Nid rhaid i ddedwydd ond ei eni.
 O lawenydd yma'n lân,
 Adroddaf gân sydd geny'.

CAN AR RODNEY.

Wrth weled y gwaith hylwydd
 Sy'n digwydd i bob dyn,
 Mae Offeiriadau mewn hoff rydyd,
 A gwynfyd mwy nag un;
 'Does un gelfyddyd foddus
 Mor barchus yn y byd;
 Nag ysgafnach, drwy naws gefnog,
 O fraint arianog fryd;
 Yr holl gwbl, ddwbl ddiben,
 'Madrodd dewrllais, medru darllen;
 Hawdd i ni, rhag poeni'n penau
 Brynu'n gwaethaf o bregethau;
 Cawn o'r goreu gyr'edd anrhydedd, parch a rhôl,
 Gyda'g arian, gwiwdeg yriad,
 Gwneir 'ffeiriad o ddyn ffôl.
 Rhaid bod i Ustus, bwriad ystyr,
 A Chounselloſs enwog, a chlau synwyr,
 A chyfreithwyr, chwerw frathiad,
 Yn llawn dichell a bradychiad,
 A'u triniad yn taranu,
 Er hyny, gwneir mewn rhôl,
 Gyda'g arian, gwiwdeg yriad, &c.

Rhaid i bob dull bywoliaeth
 Sy'n ngalwedigaeth dŷn,
 Gym'ryd trwbwl fanwl fynych,
 I edrych arno ei hun.
 Nieu sydd a'n honor's
 Yn rychors i bob rhai,
 A'r plwyfolion yn trafaelio,
 I'n tendio ni yn ein tai.
 Ni all Breninoedd, wiwfodd af'el,
 Na bon'ddigion byw'n ddiogel,

Nag un a welir gan ei alwad,
 Fael personol fel Personiaid;
 Rhaid i bob deiliaid wyllo,
 A rhwyfo'n gall eu rhôl,
 Ond gydag arian gwiwdeg yriad, &c..
 Arian ydvw'r wawr hynodol
 Gyda'r Esgob, gwedi'r ysgol,
 Groeg a Lladin, gwr goludog,
 A'i ogoniant yw ei geiniog;
 Ardderchog yw'r cywaethog,
 A rhywiog y gwneir hêl,
 Gydag arian, gwiwdeg yriad,
 Y ffylliaid yn wyr ffêl.

ENTER SIR TOM TELL TRUTH.

Wel, ni wnaeth y diawl na'i deulu
 Erioed amgenach canu;
 Roedd gogoniant uffern yn ddigon têt,
 Megis o'i gêg e'n mygu.

Offeiriad. Who are you, the bald face rogue?

Tom. Nid y'ch chwithau wr clên, pe tynid eich clòg.

O. Don't talk to me, thou dirty snap.

Tom. O! nid pob ffwl sy'n cyr'edd cap.

O. I am a Clergyman of the Church.

Tom. Onid oes i chwi lwc fe ro'ir i chwi lurch.

O. What is the lurch shall come to my 'onor?

Tom. Siaredwch Gymraeg, mi dd'weda i chwi ragor.

O. Beth rwyf yn bygwth arnaf fi mor bigog?

Tom. Am na fydde ynoch rinwedd, a chwithau mor enwog.

O. Pa rinwedd sy'n eisiau, os gwna'i nyledswydd?

*Tom. Ni cheir cywion o wyddau lle bo ddrwg Ceil-
 Na dim llwyddiant byth o'r praidd, [iagwydd
 A'r bugeiliwr yn flaid digwilydd.*

O. Onid ydwy'n bugeilio 'nol 'r arfer gyffredin?

*Tom. Manylach bryd cneifio nag hyd eu cynefin,
 I ddangos y ffordd (rhag myn'd yn sied,)
 A ddylai ddefaid, ddilyn.*

O. Pa beth a ddangoswn yn rhagor na darllain?

Tom. Rhoi peth siampl da'n eich bywyd eich hunain,
Pe bai'r defaid yn adnabod eich llais chwibeth.
Yn lanwaith, hwy a'ch dilynfen.

O. i b'le y dilynant hwy ni, heblaw'n gwrando?

Tom. I'r Dafarn, yn eu ffoledd, neu hela neu ffowlio;
Ond mae'r byd yn o *sharp*, nid pob *defence*
All gym'ryd *Licence* gamio.

O. Mae genym ni orchwyl rheitiach ei berchi.

Tom. Oes, pe canlynech chwi ffordd y goleuni,
Ond eich gwaith ydyw meddwi, a hwrio, am wn i,
Am eich degwm, a chysgu, a diogi.

Mae'ch corph chwi'n cyredd byd ar goreu,
Ond bywoliaeth annedwydd sy ar lawer o eneidiau.
Heb gael genych chwi, er maint eich tâl,
Ond un pryd sâl, y Suliau.

A hwnw'n afiachus, yn wir fynychaf—
'Ran wrth bregethu y byddwch chwi gwaethaf,
Fel pe rhoid y deillion i farnu, drwy'r wlad,
Lliw'r brethyn, neu'r dillad brithaf.

O. Rwyf yn barnu personiaid on'd yw pawb yn
synu. *Exit.*

Tom. Mae'r gwir yn gyhoeddus, gwae'r sawl sy'n ei
Ond am y rhai llesawl y'mhob man (haeddu;
Mae bendith yn rhan y rheiny.

Nid oes un i'w ga'mol na'i berchi'n gymwys,
O flaen efangylaidd weinidog eglwys,
Nag un fwy melltith na hwnw'n fyw,
Oni fydd Duw 'n ei dywys.

Dyna'r gwatwarwr sydd yn taro,
Yn stôl y gwatwor, erioed ac eto,
Ac efe yw'r lleidr erchyll hawl
Mwyaf mae'r diawl yn delio.

Sonir fod Herod yn ddyn mileinig,
Ni wnaeth ond gogleisio wrth rai gwyr eglwysig
Sy'n 'sglafaethu wrth eu pleser ddegymau'r plwy
A'r eneidiau sydd fwy enwedig,

Oni bae fod llawer yn pregethu ac yn llywio,
Yn onestach na Phersoniaid, ni fyddai wiw swnio.

Mae arnai bron chwant, yn hyn o fan
Bregethu fy hunan heno.

Mae genyf, i'w feddwl, *dext* cyfaddas,
Ynghylch godineb, mewn gwlad a dinas,
Trw'r hyn mae diawl ynghalon dyn,
Yn tafu gwenwyn gwynias.

Gwrandawed ieuengctyd hoywedd,
Ac hefyd gwyr a gwagedd,
Mae i bawb groeso, 'n gryf a gwan,
I dderbyn rhan o'i rinwedd.

CAN AR CUPID'S DREAM, NEU FREUDDWYD AR EI HYD.

Rhowch osteg ieuengctyd, a diwyd wrandewch,
A chwitheu rai priod, naws hynod, nesewch,
Naturiaeth, nwy taeraidd, sy'n llygraidd ei llun,
Drwy gwyniau drygioni, yn berwi 'mhob un,
Mae 'siamplau'r hyd y'gwledydd, beunydd yn ddi
ball,

Yn dangos yn gyffredin, mai gerwin ydyw'r gwall,
Gan mor fall amryw fûn,
I wrthsefyll heu ffrasiwn temptasiwn cnawd dyn.
Truenus mewn ieuengctyd
Yw'r gwendid hwn ar goedd,
Pair wradwydd mewn priodas,
Mwy atcas yma oedd
Garwa bloedd, gwŷr a blŷs,
Neu wragedd rhywiogaidd dan lygraidd di lys.

Mae rhwymau priodas yn urddas fwynhad,
O'r eglwys oreuglod, mâr hynod mawrhad;
Ond anian godineb gwrthwyneb gerth yw,
Ffleid-dra c'wilyddus anfoddus i fyw;
Pa'm rhaid i ŵr priodol ymorol am ddim mwy,
Un ddynes fo'n ddiana' wasnaetha'n eitha 'nwy.
Ni roed dwy yn rhaid dŷn,
Iawn ran un ar unwaith sy berffaith bob un;—
Un gwr yn anrhydeddus, lewyrchus, barchus ben,
Un wraig, un corph priodol,
Da siriol gnawd di sen.

Un asen wen, gynesa'n wir,
Ymysgaroedd ei phriod di anglod ar dir.

Mae felly gyfeillach da olliach rhwng dau,
A gario, drwy gariad, wiw rwymiad yr iau;
Ond gwr lle bo gordderch i'w draserch ar droed,
Ni ddaeth ond y felldith o ragrith erioed;
A gwraig, lle bo gair egwan, am wantan fuan fai,
Pwy gynwys fwy drygioni, trueni mawr di drai,
A phwy a sai', mor hoff yn siwr.
Ag anwyl wraig ddirwest, fo gonest i'w gwr?
Gwych hefyd yw merch ifangc,
Na allo un llangc, mewn llid,
Ddweud unwaith air am dani, yn groch i beri gwrid;
Gwyn ei fyd y gain wiw ferch,
A gadwo ddiweirdeb, cysondeb cu serch.

Fe ddylid byw'n ddilys ofalus ddifeth;
Mae'r cythraelyn gweithio neu'n pwytho'mhob peth
Rhwng mab a merch ifangc mae grafangc e'n grych,
Rhwng gwr a gwraig briod oer drallod yw'r drych,
Y pechod hwn sy'n tynu i lygru aml un,
Mae lledrad mewn anlladrwydd, a chelwydd afiach
A llawer llun, llywio a lladd; (wŷn,
Mae'r pechod yn awchlym a grym o bob gradd.
A rhaid er mwyn anrhydedd, trugaredd ambob gwall,
I ddyn gael gweled gwaeledd, eil ygredd fuchedd fall;
Troi nid all; y truan dwys.
Heb nahod oddi'chod, ei bechod yn bwys.

ENTER RINALLT ARIANOG Y CYBYDD.

Wel mawr ydyw gwynfyd rhai'n byw dan ganu,
Nid yw'r byd yn fforddio i mi heno mo hyny.
Tom. Ac ni fynwch chwi'n awr fod canu ar neb,
Mae'ch gwyneb yn cenfigenu.

Rin. Pa beth oeddit ti'n ei ganu'n ddigonol?

Tom. Cân yn erbyn godineb dynol,
Gwaith *Tom o'r Nant*, if you know the name,
Un a wyddai am y game yn weddol.

Rin. Oni chlywais yr hanes y byddai'r gwr hwnw.
Yn hoffi'n fynych fwynwch fenyw;
Os aeth e' i bregethu'n erbyn gwynt
Naturiaeth, mae'n helynt arw.

Tom. Onid ydyw'r gair mewn llyfrau,
 Mai hen leidr ceirw, yw'r *park-keeper* goreu,
 A hen bechaduriaid sy fwya' doeth,
 Am wneyd yn goeth bregethau.

Rin. Ond wrth dueddrwydd eu naturiaethau
 Mae llawer yn llywio neu'n gweithio'u pregethau,
 Heb feddu'n iawn na dawn na dysg,
 Yn pwnio Yngwysg eu penau.

Bydd person meddw yn pregethu am sobri,
 A pherson tlawd yn son am 'luseri,
 A pherson c'waethog yn estyn ei big,
 Ac yn barnu'n ddig am ddiogi.

Tom. Yr iawn athrawiaeth, araith oreu,
 Yn lle gwrando rhai'n pwnio wrth eu penau,
 Ydyw adrodd y gwir, er gwell ac er gwaeth,
 Wedi profi'n firaeth o'u ffrwythau.

Nid yw'r holl gwbl ond dall-geibio ;
 Bydd dynion dylion dan eu dwylo :
 Son am y Nef fel rhyw dref ar droed,
 Neu dinas heb erioed fod yno.

A son, a bloeddio, a rhybuddio byddis,
 A bwrw tuag uffern bob drwg *office*,
 A bod yno dân a brwmstan prudd.
 Perygl, fel Mynydd Paris.

Ac fe'i berniff rhai hi'n mynydd *Ætna*,
 Ond na chymrwn mo'n siomi, mae hi'n llawer nes
 Yn gweithio beunydd yu y byd, (yma,
 Ymhob ynfyd ond y boenfa.

A phan elo'r corph i'r ddaearen,
 Eiff yspryd pob un i'w elfen ;
 Gan hyny teimled pawb eu taith,
 A'u hynod waith eu hunain.

Rin. Yn siwr mae genyt heddyw,
 Ryw ryfedd daeraidd dwrw ;
 'Rwy'n tynu'n awr at dringain oed,
 Ni fyfyriais erioed am farw.

Tom. Wrth gofio mae geny i chwi newydd chwerrw,—
 Mae'ch mam anwyl wedi marw.

Rin. Naddo erioed, mi wrantaf fi,
 Oni ddigwyddodd iddi dori 'i gwddw.

Tom. Oni allai hi farw fel ei chym'dogion.

Rin. Na, 'roedd hi'n wraig iachus, a danedd gwychion;
'Does achos i neb, debygwn i,
Feirw onid eiff rheini'n fyrion.

'Roedd hi'n anghynefin a ffâr fon'ddigaidd,
Tea a rhyw gigau, a bara gwyn gwagedd;
Pe cawsai hi uwd a llymru, a bara llaeth,
Ni fuasai hi gwaeth gan mlynedd.

Bwydydd breision, sy'n gryfion eu *gravy*.
Wnaeth i'r hen wreigan druan, ollwng drwyddi,
A bod ymysg Saeson, mi gymraf fy llw,
A'i crugodd i farw i'w chrogi.

Tom. Ni wiw i chwi gwyno 'n unmodd
Eich colled, hi fu fyw tra gallodd;
A phan ffaeliodd drin ei hen droell dradl,
Ei hanadl a ddihoenodd.

Rin. Nid oes genyf ddim ond ofni, weithian,
Bydd ei hysbryd hi'n hyllig yn codi allan,—
'Ran roedd ei dichell ar bob tro
'N gynddeiriog am guddio arian.

Tom. Fe allai, os gwnaeth hi felly,
Mai acw bydd hi'n baeddu,
Ond mae genyf farnad, yn dweud yn fwyn,
Eich colled ar dwyn am dani.

Rin. Mi glywais byddai'r hen brydyddion
Yn gwneud barnads i wŷr a gwragedd c'waethog-
Gâd dy glywed dithau'n deg, (ion ;
'N ei ganu'n landeg union.

CANU AR LEF CAER WYNT.

Gwrandewch ar alarnad, neu farnad a fernir,
Oer larwm am Lowri, mewn cyni, ddatcenir,
Hen wreigan rywiogaidd wych agwedd, i'w chegin,
Fu'n cadw ei mab Rinallt cyn laned â brenin,
Hel llau 'mhob llain, a'r chwain o'r chwys,
O gylch ei groen, a golchi ei gryd,
Gwraig daclus foddus, fuddiol,
A drwsia'i glosau'n glysol,
Gwnae 'sanau yn gysonol, a nyddai lin olynol,
A chribai'n bleidiol wlan a blew,

O newydd iddi Lowri lew.

Hi weithiai'r nos wyth awr neu naw,

Hi godai'r boreu i 'mgydio â'r baw;

Ni fu a llaw a'r gosyn mwy hollawl am ei henllyn,

Hi driniau laeth âg undyn,

A halltai'n fanwl fenyn

A gadwai flwyddyn gyda'i flew;

O newydd iddi, Lowri lew.

Mae'n chwith i'r 'nifeiliaid, mewn dwned am dani,

leir, hwyaid, gwyddau, a moch, sydd yn gwaeddi;

A'r lloiau bach anwyl sy'n drwm eu hochenaid,

A phrin iawn y pora pob buwch nesa'r pared

Ac mae'r ceffylau mewn coffhâd,

A'r ychain oll yn chwerw eu nâd,

A'u brefiad yn abl brifo 'r calonau clau a'u clywo,

Trem galar trwm ac wylo, wnae gwn a chathod chwi-

Wrth aruthr deimlo 'r anrhaith dew. (tho,

A gaed y leni am Lowri lew.

Hi aeth i'r Nefoedd am wni, ag onid ê, gwae henaid hi,

'N iach iddi, wedi'n wydyn,

Fyth unwaith gael llaeth enwyn,

Na dwr i oeri ei duryn, os aeth i gôl y gelyn,

A'i chorph yn rhôlyn fel y rhew;

Ffarwel am dani, Lowri lew.

Rin. Wel newydd i'w henaid hi, er hyny,

Ond mi a fynai dâl gonest i ti am ganu,

Roedd fy mrawd yn o fawaid, er cyn *gwyl Fair*,

Na chawswn air i'w chladdu.

Tom. Ni wyddoch chwi, Rinallt, eto ronyn,

Na fydd eich brawd yn bloeddio y'mhen un dydd

a blwyddyn,

Yn gwneud i chwi chwalu'ch celfi cu,

Dedwyddwch eich tŷ, a'ch tyddyn.

Rin. Wel, mi dalwn yn ddigon dilys,

Hollawl, am gopi o'i h'wyllys.

Tom. Rhowch i mi arian ni fydda' i hwy,

'N myned i Lanelwy 'n hwylus.

Rin. Dyma i ti *guinea*,—fedda'i fawr arian gwynion.

Tom. 'D yw pobl Llanelwy ddim yn haelion;

Mae yno *registers a phroctors* a chynffon glau.

A rhai tyllau tinau tynion.

Exit.

Rin. Os cei di'r Proctoriad yn wŷr tirion,
Yn rhoddi iti gonffwrdd, gad rhwng diawi a'r gyn-
Mae nhw'n gynffonau ac yn dyllau tin, [ffon,
'N rhai garw am drin y gwirion.

Mae hyn yn helynt led anhwylys,
Gwnaed dyn, a fyfno, fe fydd yn gwynfanus,
O achos rhyw drallodau o hyd,
Sy'n hyn o fyd gofidus.

Cesglwch arian, mae'n flinder chwerw,
A mwy blinder gwedi'n yn ceisio'u cadw,
Ac y mae mwy blinder yn ddigon siwr,
O'r haner na'r blinder hwnw.

Mae rhai tylodion ar hyd y gwledydd,
Pe cae nhw unwaith fyned ar y plwyfydd.
Ni cheisient ystreifio, na gweithio'n gŵ,
Rwy'n gweled hyny'n g'wilydd.

Fe fydd rhai yn dall-geibio mai drwg bod yn
gybydd;
Mae'n fwy drwg i ddynion fod rhy ddiiddeunydd,
Yr hwrio a'r meddwi, a'r diogi diawl,
A dilyn hawl anhylwydd.

Ond mae fy nghalon i mor ystyfnig
I wneud dim ar a allwyf, mewn tymber hyllig,
Cyn yr ymollyngwyf mewn un llŷn,
Yn dlawd, mi a'n ddŷn diawledig.

ENTER SIR TOM.

Tom. Wel, Rinallt anwyl, mi ddois mewn dwned.

Rin. A gefaist ti geffyl prydydd Llanrhaied?
Onid e'roedd yn rhyfedd i ti ar hynt,
Ddw'd fel y gwynt, mor gynted.

Tom. Mi ddois i yn ollawl a'r 'wyllys ichwi,
'Roedd pobl Llanelwy yn siarad ac yn holi,
Mae nhw'n disgwyl rhagor yn y man,
O'ch arian, cyn eich oeri.

Rin. Ni cha'n nhw fawr gen i, diolchoch.

Tom. Chwi weriwch eich gallu cyn y colloch:
'Roedd cythraul yn eich corddi chwi bob cam,
Pan yre'i chwi 'ch mam oddiwrthoch.

Rin. Darllen di'r 'wyllys, yn bwyllys bellach.

Tom. Nichlywsoch chwi'leni ddim siarad creulonach
In the name of Cōd ac Amen ydyw'r dechreu,
 Ond nis gwn i am ei ganol sut i agor mo'm genau,

*There is two Trustees for appraising present
 Mr. John Trimwell a Mr. Hugh Torment,*
 Y rhainy sy edrych na fo dim gŵyrhydri,
 Ond pob peth yn lanwaith i gael ei gyflawni.

*In the first place for your brother Evy
 There is two hundred pounds of clear money,
 And three hundred again for his daughter Fanny,*
 Mi debygwn mai pum cant ydyw hyny.

Rin. Pum cant o ba beth, dywedwch ar unwaith ?

Tom. Deucant i'ch brawd a thrichant i'r eneth,
 Ac mae gwmpas degpunt eto'n dost
 Yn digwydd ar gost cyldigaeth.

Rin. Oh ! 'r felldith greulon, trallodion llidiog,
 Beth wna i o gynddaredd wrth y mam gynddeir.
 Pe gwelwn i hi'r funud yma'n hyn o fan, (iog,
 Mi ai curwn hi'n annrhugarog.

Tom. Ow, Rinallt anwyl, mae'n erchyll d' enw !
 Curo dy fam sydd wedi marw,

Rin. Ni waeth gan i pe gwelwn, yngwydd plwy',
 Hi a Llanelwy'n ulw.

Tom. Gwared ni rhagoch, tewch a rhegi,
 I chwi 'roedd hi'n perthyn, ni all yma neb wrthi.

Rin. O mi af at gyfreithiwr heddyw brydnhawn,
 Yn hwylyus iawn i ymboli.

Tom. Wel, pe'r aech chwi heno,
 Tu ag uffern, fe fyddai hi'n gwffio ;
 A digon tebyg y chwelid y tân,
 Wrth i chwi a'r hen wreigan rwygo.

Wel dyma'r helynt a'r dymher halog,
 Cenfigen a chynnen ynghalonau rhai chwannog,
 Mae dull eu gweithredoedd y'mhob man,
 Au geiriau hwy'n annhrugarog.

Ac nid yw'r holl ofidi ond rhag myn'd i dylodi,
 Magu calonau, mawr a mân, mae arian, fel mieri.

A llygaid rhai, mewn dull eger,
 Sy'n chwyddo i fynu o frasder,
 Am gynnal eu balchder yn y byd,
 Mae nhw o hyd a'u hyder.

Mae ymchwydd y byd yn treiglo,
 Fel *histori*'r blaidd a'r cadno,
 Un yn d'od i fynu a'r llall yn myn'd i lawr,
 Bob ffasiwn, heb fawr orphwyso.

Mae trafael gafael gofid
 Fel y tonnau fydd ar Lyn Tegid,
 Daw un i'r lan, drwy ffwddan ffôl,
 A'r llall ar ei hol i'w herlid.

Mae weithiau'r tlawd yn derchafu,
 Neu gyfoethogion yn gwaethygu,
 Y bryniau'n cwympo'n isel eu bri,
 A'r tomenydd yn codi i fynu.

Mae'r holl bethau hyn yn gweithio beunydd,
 I ddangos i ddyn beth yw ei ddeunydd,
 Ac nad ydyw'r tlawd yn colli bob tro,
 Na'r cwbl yn eiddo'r cybydd.

Mae olwyn rhagluniaeth yn troi 'n ganlynol ;
 Nid yw rhedfa yn eiddo'r cyflym nerthol,
 Na rhyfel yn eiddo'r cadarn call,
 Mae damweiniau'n ddiball amserol.

Ond sicrwydd ffordd y bywyd,
 Ydyw bod yn dlawd yn'r ysbryd,
 Am hyny mae genyf ganiad glir,
 Mewn didwyll wir, i'w d'weudyd.

CANU AR SAILORS BOLD, NEU KING CHARLES'S DELIGHT.

YMHOLWN, gwelwn beth yw gwaelod
 Y tlodi hynod sydd o hyd ;
 Ond nerth ein pechod ni,
 A'i rhoes i boeni'r byd.
 Trwy lais a pharabl Luciferaidd,
 Balchder egraidd, lygraidd lid,
 Daeth gwraidd ac effaith grwn, y gofid hwn i gyd,
 Cynhyrriad g'leuni rheswm;

A chwllwm hunan chwant
 A wyrodd wawr hen Adda i lawr,
 Er blinder mawr i'w blant,
 Wrth geisio ffrwyth gwybodaeth ffraeth,
 O driniaeth da a drwg,
 Melldithion o bob rhyw, dan ddialedd Duw a ddwg,
 Gofalu a chwysu am fara, a llawer gwasgfa gerth,
 A dwyn trwy boen y plant i'r byd,
 Mae'n ofid ymhob nerth. (led,
 Blinderau dwys i dori dŷn, mewn amryw lun, sy ar
 Pob gwae trallodau llawn, gerwinol iawn a rêd.

Trom wialen lidiog yw tylodi,
 I gosbi a phrosi'r balch ei ffroen;
 Dihatru'r gwisgoedd gwyh,
 A gwneud yn grych y croen;
 Yr Israeliaid, niwaid newyn,
 Anrhaith dygn i'r Aipht aeth,
 I ddiodeu a'n bronau'n brudd
 Tan lawer cystudd caeth,
 A newyn mawr Samaria, cyfyngdra c'leta i'n clyw,
 Gwaedd fater blin oedd fwyta'r plant,
 Yn borthiant o ran byw.
 Caersalem wych ceir sylw mawr,
 Gae thori lawr trwy lid,
 Pechodau oedd dalfa dŷn, ac achos hyn i gyd,
 Pen Babel fawr ostynged, er ffraethed oedd ei ffrost;
 'Ddaw dŷn i'w le, heb dynu i lawr,
 Ei falcher mawr a'i fost.
 Doethineb sydd yn gweithio'n rhydd,
 Beunydd ymhob peth;
 Darostwng balch ei dro, a chodi fo ar feth.

Fel meirch porthiannus mae poeth wyniau
 Yn ein calonau oll ynglŷn,
 Rhaid ffrwyn a genfa ffraeth,
 Cyn tori'n gaeth ein gwŷn,
 Trwy boen a llafur erchyll ofid,
 Tlodi ac adfyd, d'led oer gwyn;
 Trwy blâau, carchar a chur,
 Mae dolur yma'n dwyn.
 A'n hachos oll yw teimled a gweled beth yw gwaith,
 Llaw ddirgel Duw o'i ergyd é,

Er mwyn eneidiau maith,
 Lladd hunan chwant, llwydd anian chwith,
 Sef grym y felldith fawr,
 Drwy dynu balchder dŷn, y'mhob rhyw lŷn, i lawr,
 Derchafu'r enw sanctaidd,
 Pen rhinwedd pob mawrhâd,
 Cael ysbryd gwân fel publican,
 A chwynfan am iachâd,
 Afradlon y'm, rhaid rhodio'n ol, drwy edifeiriol fyw,
 Lle ceir yr ysbryd coedd ar wyneb dyfroedd Duw.

Pan ddelo'r golwg hyn i'r galon,
 O mor hyfrydlon fydd y fraint!
 Fe geiff pechadur noeth, gysondeb doeth y saint,
 Fe dderfydd rheswm, cnawd ymryson,
 Barnau croesion beilchion byd,
 Ni fydd gan ffydd un ffair, ond yn y gair i gyd.
 Y gair yw'r môr annrhaethol,
 Mae'r llestri gwrol gell,
 Mewn dawn a nerth yn dwyn yn Nuw,
 Drysorau byw, o hell,
 Fe brawf y dŷn ysbrydol doeth
 Bob peth yn goeth eu gwawr,
 Drwy sain was'naethgar swydd,
 Yn moli'r Arglwydd mawr;
 Ond dŷn mewn gwyn drygioni,
 A balch drueni byd;
 Rhaid curo i lawr ei wawr a'i wŷn,
 Cyn gwelo, er hyn i gyd.
 A dyma'r gwaith drwy dymer gwir,
 Boed ini ei gywir gael;
 Yn ifangc ac yn hen, Amen, Amen, er mael.

ENTER RINALLT Y 'CYBYDD.

Rin. Wel, nad elwyf i Landeilo,

Ond dâl 'rwyd ti ati hi i ganu eto.

Tom. Pe canech chwithau glod i Dduw,

Chwi allech fyw'n ddigyffro.

Rin. D'oes achos i mi ganu clod i undyn,

Am ddim a gefais i eto ganddyn'.

Tom. Pwy debygech sy'n rhoi'n ddifeth,

Eich porthiant a phob peth sy'n perthyn?

Mae'r hediaid a'r ymlusgiaid wrth eu rhywogaeth,
Y pysgod a'r milod yn rhoi canmoliaeth,
A'r ych, a'r asyn, yn adnabod yn glau,
Eu presebau, parhaus obaith.

A chwithau, gybyddion, yn chwythu ac yn baeddu,
Fel seirff, ar eich torau'n ymlusgo ac yn taeru,
Heb feddwl dim yn y byd ar droed,
Am Greawdwr, erioed, na'i gredu.

Bin. Mi ddysgais i'n hogyn gwanllyd
Y credo, a'r pader hefyd:

Tom. Eich arfer chwi ydyw cysgu'n swrth,
Ond odid, wrth eu dweudyd.

Mae llawer creadur angall
Yn cael bara beunyddiol diwall,
Ond am ei wared rhag y drwg.
Rhaid cyraedd golwg arall.

Ac am faddeu dyledion, 'r ydych chwi mor lidiog,
A'ch natur mor gwning, na faddeuoch un geiniog.
Bin. Wel, wrth fod yn ffyrnig am bob *fee*,
A gweithio, 'r es i'n gywaethog.

Tom. Wel, beth dâl bod yn ffyrnig felly,
Os bydd dŷn sad olwg ac 'wyllys i dalu,
A'r byd yn ei erbyn, dygyn daith,
Trwy ofid maith, yn methu?

Ond rhaid yw meddwl y dylid maddeu,
Os bydd dŷn ag 'wyllys i dalu pe gallai,
Y Creawdwr piâu'r eiddo, fe all rai'n ffri,
I'r un fyno ai chwi ai fineu.

A pham mae rhai'n cael geni'n ddeiliaid,
Rhai'n colli'r fywoliaeth, tir, tai neu 'nfeiliaid,
Ond dangos fod awdurdod gan ryw un mwy,
I dori drwy 'i greaduriaid.

A mawr na ddeallem drwy fwyd neu ddillad,
Tu hwnt colli buwch, na cheffyl na dafad,
Y dylai gydymdeimlad o frawd gwan,
Fod yn cyraedd o ran cariad.

Bin. Mi dd'weuda'i 'n glir y gwir fel gwarant,
Ni fedra'i ddim maddeu os colla' i fy meddiant;

Tom. Nid oes i chwitheu, siwrneu syth,
Addewyd gael byth faddeuant.

Ond am y dŷn dwl a ffaelio dalu,
Mae'n rhydd ei enaid o ran hyny,
Os bydd yn ollawl mae talu wnai
Gyda'g 'wyllys, pe b'ai fe'a gallu.

Mae treigliad y byd yn troi ac yn symud;
Ni wiw i'r cogail fod yn ddig wrth y werthyd;
Helynt flin yw pobi heb ffawd,
Chareu teg i'r tlawd am ei fywyd.

Rin. Wel, mae genyt heno, yn marn pob dynion,
Ryw siarad go lydan i swcro tylodion,
Na sôn am hyn yna o fewn ein plwy' ni,
Mae yma ddiogi, ddigon.

Tom. Nid y rhai tylota fy'n cael talu atyn',
Wrth *ffreinship*, ar gyfer, mae'r dreth yn cael ei
Hen forwyn bonheddig, neu was fo'n hy', (gofyn,
Gwedi bod yn rhyw deulu'n dilyn.

Rin. Ffreinsibiant a'u sfoen syber,
Mae'n rhaid i denantiaid dalu llawer
Rhngwng balehder a diogi, syrthni sâl,
Fe sagwyd yma amal feger.

Tom. Wel, er hyn i gyd, mae'r byd yn glynu,
Rhai yn ei gynnal, a rhai yn ei oganu,
Un yn gryf a'r llall yn wan,
A phawb yn cael rhan, er hyny.

Ond y diawl Luciferaidd, ni wneiff lai na phori,
Yngweirglodd naturiaeth, lle mae trachwant yn
Ond yr hwn sy'n cynal y gwych ar gwael [tori,
A ddylai gael ei addoli. *Exit. Tom.*

Rin. Wel, rhyfedd cymaint yn mhob cymau,
Mae dynion penweiniaid yn hel o ympiniwnau!
Ac anhawdd yw dirnad yn meddwl dŷn,
Yn siwr, pa un sy oreu.

Mae un ffordd yma, a'r llall ffordd acw,
Un yn sobr a'r llall yn feddw
Un yn fawr a'r llall yn fach,
Ni fu 'rioed ddim taerach twrw.

Ond os bydd genyf olud, mi gaf i 'nilyn,
 'Geraint a ffrindiau'n annglyffredin;
 Ond os âf fi 'n dylawd mi wranta' fi
 Y bydda'n nhw'n oeri 'n erwin.

Nid â i ddim yn dylawd tros fy nhynu'n aelodau,
 Rwy'n uchel fy stwmog, mi wnaf bob ystumiau,
 Mi dwyllaf ac a gogiaf, ac a floeddia'n flin,
 Ac mi frathaf i drin cyfreithiau.

O! mi fu'm yn Llanelwy, dyna'r lle anwyla'
 A welais i 'rioed nag eto nag yma,
 Rwy'n credu bydda'i 'mhen tipyn bach
 Oddiyno'n iach ddiana'.

'Roedd pawb mor ollawl eu cyfeillach,
 Yn fy ngalw i'n Feistr, er 'mod yn rhyw fustach,
 Nid allai ddyn weled mewn rhediad rhôl,
 Ar f' einioes i, bobl fwynach.

Nhwy fuont yn eistedd bawb cyn onested,
 Yn'r eglwys uchaf, nes oedd arnynt syched,
 Ac i'r White-lion oddiyno at fyr,
 Ni aethom yn yr i wared.

A dyna lle buom ni bawb am ein bywyd
 Yn bwyta dan duchan, ac yn yfed iechyd,
 A phawb yn llanw cwrw cu,
 A *liquors* hyny leicid.

'Roedd y *Register* a'r *Proctor* yn pratio imi'n
 greulon,

Ac ni allech ganffod un mwynach na'r gynffon,
 Ni ddywedasei mor llawer (mi gymra' fy llw)
 Pe talswn i am gwrw goron.

Ond beth bynag a wariaf rwyn'n foddlon, mi wrantaf
 O hyn i ben tri-chwrt, y fi fydd y trechaf,
 Mi wranta' do i trwyddi hi, ni fydda'i dro,
 Weithian, gwnaed Ianto ei waethaf.

ENTER CARIAD YN CANU AR "GALON DROM".

CLYWCH dderchafad, geirwir gariad,
 Pur bwyth bwriad pob peth byw,
 Dechreuol wreiddiol ryw, does unrhyw heb fy swydd

Rwyf fi'n gynhyrriad gwres cenhedliad,
 Teimlad cariad magiad mwyn,
 A ddeil bob peth i 'mddwyn,
 I'w ryw yn addfwyn rwydd.
 Yn llwybr natur noeth,
 Pwynt enwog eirias, tân o gariad
 A'm bwriad yma'n boeth,
 Drwy bob creadur byw, hynod yw anian doeth;
 Mae'r llewod mawr eu llid, a phob arian fwystfil byd
 Yn cyniwair i'w cenawon, yn gyson iawn i gyd,
 A chariad piau'r mawl, allu hawl, felly o hyd.

Trwy wynt a dyfroedd, moroedd mawrion,
 Trwy beryglon digllawn daith,
 Mae cariad fwriad faith yn berffaith ac yn bur,
 Er i satan anian wyniau, fagu'n grau genfigen gre',
 Y cariad sai'n ei le, drwy dân ac arfau dur,
 Er digwydd fel y daeth drwy'r cwmp, drueni caeth,
 Fe gafodd cariad fwy amlygiad,
 A phrosiad yma'n ffraeth;
 'Raddewid a roe Duw, cywrain yw, 'n caru a wnaeth,
 Ac achos unig yw, adnabod hwn yn Nuw,
 Caru'r ffrwythau gwir effeithiol, ysbrydol radol ryw
 'Ran dyna'r nerth a'r nodd,
 Swydd union fodd sydd i ni fyw.

ENTER BRENIN ANGAU.

Pwy ydyw hon yn rhwysg ei chryfder,
 Sy'n ymdderchafu yn ei chyfer?

Cariad. Yn mhob peth sydd a bywyd yuddo,
 Mae elfen cariad yn concwerio.

Angau. O, taw a son, ti, gwirion gariad;
 Beth yw dy fawredd a'th hudfwriad?
 Pan darawy'r ffryns anwyla'n farw,
 P'le bydd dy hanes di'r dydd hwnw?

Car. 'Rwyf fel y tân, yn mlaen y tyna',
 At y byw sydd heb eu difa,
 Mae'n elfen cariad, fywiol anian,
 Cymer y meirw i ti dy hunan,

Angau. Cym'ryd a wnaf, ni all neb fy rhwystro,
 Bob math ar beth sy a bywyd ganddo,

Maeent er y cwmp tan oresgynfa
'N ddarostyngedig im dyfodfa.

'Cha'dd neb erioed ddihangfa o'm gafael
Oddieuthur dau ysbiwyr dirgel,
A rhai'n bu orfod, trwy sawr helynt,
I'w Meichiau dalu'r eithaf trostynt.

Os ca'dd y pysg ddihangfa'r diluw,
Mae genyf awdurdod ar bob cyfryw,
Ar bob creadur, brenin ydwy',
Mi ge's fy nodi'n ddychrynadwy.

O! fel y bydd natur yn och'neidio ac yn ofni,
Pan f'om mhyrth haiarnaidd i 'n cau arni;
Rwy'n deyrn mor ofnadwy yn peri dychryndod,
A wna 'i wregys lwynau'r cedyrn ymddatod.

Myfi ydyw'r un, mewn gwŷn annigonedd
A lwngc o'r holl ddaear bob peth â'm cynddaredd;
Mi dd'weuda am lais utgorn, Hâ! Hâ! heb lais acto
Aroglaf ryfel o bell, twrf t'wysogion a bloeddio,

Myfi ydyw'r lesiathan, 'does le i mi fethu,
Mae pob peth yn ollawi i'm pwyth yn allu,
Dwr, Tan, Daeear, Awyr, elfenau naturiaeth,
Sy imi'n ymwroli at achos marwolaeth;

Mae cerig a choed, ffrwyth gerddi a maesydd,
Bwyd, diod, dillad, gwres, oerni, a phob tywydd;
Galwedigaeth eu dwylo tu ag at eu cynhaliaeth,
Sydd genyf i filoedd'n offerynau marwolaeth.

Car. Mae lle i mi eto godi mhen,
Er bod dy sen di'n hagar,—
Ni ellaist niwaid â'th law gref,
I Arglwydd Nef a daear.

Dyna 'mhriod hynod i,
Mi allaf waeddi, allan,
P'le mae dy golyn dygyn di,
Mewn gafael i mi'n gyfan?

ngau. Peth mawr ydyw marw a chwerw loes ang-
Fe grŷnodd rhai gonest gan earnest fy nyrnau, (au,
Ni chadd yr un mawr wyt yn sôn am dano,
Ond triniaeth anelwig pan oedd tan fy nwylo.

Wrth iddo dalu i mi 'm dirwy neu'r fforffed,
 Mei â'i gwesgais hyd nes ddeffodd mor galed,
 Ond oedd y greadigaeth yn galarn ac yn cyffro,
 A th'wllwch ar y ddaear, fe ddarfu i'r haul dduo,

Cariad. Yn mhen y tridiau gwnaeth ê'r tro,
 Yn ddilys o dy ddwylo;
 Dyna'r faner, ynddo fe,
 Ca'dd Cariad le i gongcwerio.

Angau. Wel, congweried pawb eu goreu,
 Gwr gonest cywir wyf fi angeu,
 Ni wna'f fi, er maint fy holl rymusder,
 Gam âg undyn yn ei fater.

Ac yn fy llywodraeth yma beunydd,
 Y mae'n ogyfuwch pawb â'u gilydd,
 Yn gymaint mai'r un dyled a chyfri'
 Sydd yma heb omedd ar bawb imi.

A thrwy fy äang fawr lywodraeth,
 Nid oes gariad, na rhagoriaeth
 Rhwng un a f'asei'n frenin llydan,
 A'r caethwas mwyaf distadl allan.

Rhai fuasai gynt yn gedyrn trawsion,
 Yn mynu mwy na'r hyn oedd gyfion,
 Trwy nerth cleddyfau, erchyll dirnad,
 Neu trwy gyfreithiau gwyrngam frathiad.

Maent yn cydfraenn'n wael eu helynt,
 A'r rhai buont gas anghyffion wrthynt,
 Mor gymysg na ellir mewn mynwentydd
 Ddidoli eu hesgyrn oddiwrth eu gilydd.

O! rhyfedd y gwastadle eglur,
 'Mysg dynol-ryw wyf fi'n ei wnethur,
 Hyd onid yw y tlawd weinidog
 Yn mwynhau'r un fraint a'i feistr c'waethog.

Yr hwn fu'n poeni'n llwm a gwasgol,
 Yn cael'r un bwrdd â'r gwr danteithiol;
 A'r un fu'n rhwym gan gaeth gadwynau,
 Yn 'r un rhyddid â'r hwn a'i caethiwasai.

Gan hyny gweled pawb yn gall,
 D'oes ffafor i neb, y naill mwy na'r llall,

Meddyliwch mewn pryd, mai lle cwympo'r pren,
Bydd ei drigfa'n syth, heb byth gael pen.

Exit.

Cariad. Oh! gwiliwch iddo gwympo arnoch
Ar farch du, pryd na ddisgwyliocho,
Ac uffern eigion, a'i ffwrn eger,
Wrth ei sgitl, a'i nerth ysgeler.

Dyma'r lle mae angau'n chwerw,
I'r dŷn annuwiol wrth ei farw;
Ond i'r duwiolion â'r da waelod,
Cymwynasgarwch yw ei ddyrnod.

Canys i'r rhai a elwir seintiau,
Mae 'u ffordd hwy drwy ardaloedd angau;
Ond ni all ei niwed mo'u gorddiwes,
Mwy na'r tân i'r llanciau o'r ffwrnes.

Er hyn mae fflam drwg angau'n hedfan,
I losgi dillad y rhai tu allan,
Ond a fo tu mewn i'r cariad effro,—
D'oes dwfr na thân all ei niweidio.

Yn ol cael golwg, trwy or'chafiaeth,
Ar borthladd dymunol iechydwrïaeth
Cânt ddweud yn llawen trwy orfoledd,—
P'le mae dy golyn, angau gwaelaidd?

Trwy ddyffryn tywyll cysgod angau,
Mae cariad beunydd yn dal eu penau,
Fel bo'nt er lles yn cynes ganu,
Gwyn fyd a allai ganu felly.

CAN AR "DORSETSHIRE MARCH."

O Bechaduriaid, dewch ar dwyn,
I wrando cwyn a mwyn ddymuniad,
Y gwiwlan *air* sy i'n gadw'n ol,
I gyraedd grasol gariad.
Mae llef yn gwaeddi nos a dydd
Yn 'r heolydd, Oh! mor helaeth,
Yn rhoddi gwa'dd i bawb ar goedd,
I diroedd iechydwrïaeth.
O! 'r fath gariad wiwrad eiriau,
Y carai Duw ni pan roe'n ddiâu,

Ei Fab yn aberth dros eneidiau,
 Ow na welem ninnau'n wiw.
 Mai goren dawn yw caru Duw,
 Pam y carwn hunan hyder,
 Byd, a chnawd; a thwyll, a ffalsder,
 Caru elw, caru pleser,
 Caru balchder, ofer yw,
 Caru dim ond caru Duw.

Pan ddel angau blaeanu blin,
 I'n treiglo a'n trin yn fin aflonydd,
 Beth dâl cywaeth i enaid gwan?
 Yn gorwedd dan ei gerydd;
 O! mor werthfawr yma wawr,
 Y cariad mawr, a'i wirfawr arfaeth,
 Congweriwr diawl yn cario'r dydd
 Ar wely prudd marwolaeth.
 Dyna'r pryd bydd gwynfyd ganfod
 Cariad rhad, maddeuant pechod,
 A chòlyn angau'n ddiawdurdod,
 O! faint rhyfeddod, hynod yw;
 Trwy gyraedd dawn, trugaredd Duw!
 Derfydd byd, a derfydd trafferth,
 Derfydd ofn, a derfydd trwblaeth,
 Derfydd ffydd, a derfydd gobaith;
 O! 'r or'chafiaeth odiaeth yw;
 Angorion teg, yn nghariad Duw.

Rhyfedd gariad sydd ar goedd,
 Rhyfedd filoedd o afaelion;
 Cariad rhad yn curo'n drwm,
 I ddatod cwlwm calon,
 Wrth ein drysau wae'n ymdroi,
 Ninau'n ffoi, gan gloi, beb glywed
 Ei alwad rhyfedd, lawer tro,
 Mae'n achwyn, Oh! fynyched,
 Pa sawl gwaith mynasa'i galon
 Dan'i adenydd dynu dynion,
 Fel y 'casgl iar ei chywion,
 Mewn cynheslon raslon ryw,
 Oh! 'r 'wyllys da sy'n mynwes Duw,
 Dyma'r cariad fu'n rhagori
 Patriarchiaid a phroffwydi;

Apostolion a merthyri, goleuni rheini, glana' rhyw,
Cywira dawu oedd caru Duw.

Ac Oh! na fyddem ninau'n awr,
Yn fach a mawr, yn cofio'i 'mwarded,
A maint ei gariad ef, heb goll,
I alw oll i wilied.

Er bod unfed awr ar ddeg,
Yn hwyr adeg o anrhydedd,
Sef deg gorchymyn heb iachâd,
Mae cariad yma'n cyraedd,
Y nef ei hun yn hwrw o honi,
Lenllianwyrch wedi ei llenwi,
Rhad efengyl, anwyl ini, Oh! 'r daioni hynod yw
Egoriad hael o gariad Duw.

Gweddied pawb am nerth a theimlad,
I fyn'd trwy'r byd a'i holl gymysgiad,
A'n golwg hyd ar y Ceidwad,
Yn ei gariad, enwog yw,
Gwna ni yma'n ddoeth, Amen, O Dduw.

ENTER RINALLT Y CYBYDD.

Wel siarad am gariad 'rwyf ti mor gywrain,
Mae'n hapus dy lewyrch fedru bod mor lawen,
'Rwyf finau'n ddŷn, ped fawn i haws,
Y'mron tori ar fy uhraws o genfigen.

Mi fedrwn fyn'd ar fy ngliniau'n lanwaith,
I lwyr felldithio gwyr y gyfraith;
Hwy aethont gyda'u cyfraith gam,
Yn filain am fywoliaeth.

Cariad. Ymgroesa rhag trueni,
Peth rhy-gas ydyw rhegi.

Rinallt. Ni fedra' i faddeu byth yn iawn,
Mi a'u rhegaf, pe cawn fy nghrogi.

Cariad. Anfeidrol yw ynfydu,
Nid y ni sy i farnu;
Mae gwr cywir yn y man,
A wneiff ei hunan hyny.

Rin. Wel, beth ydwyf nes, oni wnaethant hwy'n gi-
Imi dalu'n union heb waetha'n fy nannedd, (aidd

A goreu po cyntaf gan ineu am yr hawl,
Y tyno rhyw ddiawl nhw i ddialedd.

Cariad. Wel, beth pe bai cyfiawnder eglur
Yn disgyn yma ar bob pechadur?
Mae'n rhyfedd iawn fod barn ddi ddiffuant,
Heb wneud â ni heddyw 'n ol ein haeddiant.

O! rhyfedd y cariad sydd i'n cyr'edd,
Hwyrfrydig lid a mawr drugaredd,
Fe all maddenant fod ar feder
Y gwyr o gyfraith mwya'i trawsder.

Rin. Wel, os maddeuir i wyr y gyfraith,
Fe wneir ag y nhw lawer o ffafriaeth,
'Ran ni faddeua'n nhw i undyn mewn un man,
Oni fydd yn rhy wan i 'medlaeth.

Cariad. A'r llathen y mesuront, mae'n wir y siarad,
Y mesurir iddynt hwythau'n ddiwad,
O ddiffyg derbyn gras ar daith,
O gywrain berffaith gariad.

Rin. Yry'ch chwi'n wraig wedi bod ar drafael,
Yn gwybod peth am dduw a chythrael,
A wnewch chwi wrando, heb fod yn ddig,
Ryw 'chydig ar fy chwedel.

Mi draetha'r gwir o'r dechreu,
Fel y bu rhwng fy mrawd a mineu,
Am eiddo ein mam, trw natur fin,
Yr aethom i drin cyfreithiau.

Mae mrawd yn offeiriad ail i Pharo,
Gwae fi o'm gofid ymhel ag efo!
Ond mi es i Lanelwy'n gyntaf peth,
Ac a ddarfum am gyfraith gwafro.

Ac yr oeddwn yn coelio unwaith o'm calon
Fod pobl Lanelwy yn lled angylion,
A pheth oeddynt hwythau'n haid,
Ond diawliaid o hudolion.

Gwrando ar eu *nonsense* yno'n unswydd,
Dowch yma'r cwrt nesa, chwi gewch drefnus-
O! mi weriais arian olwg serth, (rwydd,
Wrth galyd eu hanferth gelwydd.

Dweud wrtha 'i rai troiau 'mod i'n siwr o'r treial,
 Am na hidiwn mewn costau, gan gael dywad
 cystal,
 A'r cwrt nesa' drachefn fe fydd y mater i chwi,
 Ond eisiau naw *guinea* i'w gynal.

Mi fu'm felly'n eu dilyn, i dalu, ac i dalu,
 O'r diwedd mi es yn hyllig, wrth o hyd gael fy
 nallu;
 Mi ganlynaf arnynt hwy'n bur sound,
 Yn y funud am fy nghount i fyau.

Ac ni choelia' i na chefais yr hen or'chafiaeth,
 Roeddynt hwy o'm cwmpas, fel cŵn wrth ysglyf-
 D'oedd dim a wnae'r tro, fesur dau a'r tri, (aeth,
 Ond arian yn ddiroraeth.

'Roedd cost eu papur yn myn'd yn anferth,
 Chwech swllt a cheiniog am bob dimeuwerth,
 Heblaw peth ffiائد iddynt hwythau o *ffis*,
 At yr office, am eu traferth.

Ond, y felldith iddynt o wir gaeth ddiodeu,
 Fe aeth arnai'n Llanelwy'n gost anaeleu;
 Mi feddyliais, gwedi, o'm c'ledi clir,
 Mai cyfraith y sir sy oreu.

Mi eis at gyfreithiwr o flaen y *sessiwn*,
 Wel, fe wnae hwn'n fanwl i mi'r peth fyd a fyn-
 A rhwygo, a dondio, a thyngu 'i fyn diawl, (wn,
 Yn ollawl yr ynillwn.

Mineu, yn fy ffoledd, a werthais fy ngheffylau,
 A ngwartheg a f' ychain, gael arian i'w fachau,
 A ffeo *counsellors* ar draws ac ar hyd.
 D' oedd dim yn y byd a safai.

Ceisio dau wr o gyfraith i golaeth ac i ganlyn,
 Un o Ddinbych a'r llall o Ruthyn,
 Ond yn y diwedd, y fi a fu'r ffwl,
 Nhw aethon' a'r cwbl rhyngddyn'.

Canlyn sessiwnau, a gwrando Saisoniaid,
 Yn gwneud dannedd ar eu gilydd, a thyngu'n
 Ni chefais i fater yn y byd i ben, (galed);
 Ond biliau'r hen benbyliaid.

'Roedd eu biliau nhw'n hwy rhyngthyn',
 Nag oedd Hari o Lyn Ceirlog o'r sawdl i'r coryn,
 A'r ffigiwrn yn edrych gan dewed a niwl,
 'R un fath a ffyn riwl *Excicemyn*.

Mi allwn bregethu am hyn brygowthen,
 Cyd ag o'r Foelas i allt y Rhiw Felen,
 Hwyl aethont ag arian lond fy hen gôb,
 Ie, filoedd, rhwng pob fulain.

Mae'r cythrael yn gyfrwysach, nid rhaid iddo
 Bydd sicr o honynt ar ol heno, (frysio,
 Fe chwery â nhw 'rwan am yr hawl,
 Ond yn uffern bydd diawl yn hafio.

Cariad. Rhyfedd y twrw sy mewn drwg naturiaeth,
 Yn cablu ac yn ymladd mewn amlwg elyniaeth,
 Och! faint o ddrygioni trueni tra hynod
 Sydd mewn ariangarwch yn gwyro rhai i bechod!

Dyma chwfn rholi bai ar gyfreithwyr trawsion
 Heb ystyr na gweled beiau 'ch hen galon,
 Cariad a'i archwaethiad rhwng eich brawd a
 chwitheu,

Allsei, heb ddim dychryn, gytano cyn dechreu.

Ond Cyfoeth fâg falchder, a balchder o'i berchi,
 Fel dial taledig, sy'n magn tyfodi,
 A thylodi i rai, mewn llied a chynddaredd,
 Sy'n debyg o dd'wad i fagn drwg-ddiwedd.

Rin. A glywob chwi, onid wyt yn pregethu ar redeg?
 Mor chwyrn a'r cyfreithwyr, ond eu bod hwy yn
 Saesneg,

Am ddim wy'n ei ddeall o'th siarad ti,
 Mae'n Ladin i mi mor lwyrddeg.

Car. Ai nid wyt yn deall mor gwir wrth ei wrando?

Rin. Gwell 'rydwy'n deall 'mod i wedi f'andwyo.

Cariad. Os colli d' enaid bydd mwy dy drueni.

Rin. Beth ydyw enaid wrth y byd a'i ddaioni?

Fy nefaid a'm gwartheg, a'm haur a'm harian,
 A'r gwair, a'r yd o'r ysgubor, a'r ydian,
 A'm holl gêr hwsmonaeth, cywaeth cu,
 A gollais o'r tŷ ac allan.

Cariad. O! nad allai, o'ch holl drueni,
 Anynedd a chariad yma'ch oeri,
 Er maint sy o groesau, briwiau brad,
 Mae cariad yn rhagori.

Rin. Cariad go wladaidd sy lle bo dylodi,
 Ni edrychir fawr arnaf, mi allaf farw yn 'r oerni,
 Ar ol myn'd yn dlawd ni fydd gan neb yn y wlad
 Yma damaid o gariad imi.

Cariad. O! mae cariad pur yn cyraedd
 O ymysgaroedd Tad trugaredd;
 Derbyniad rhad sydd mewn addewyd
 I'r tlawd a'r llwythog, isel ysbryd.

Rin. Nid yw fy ysbryd ddim yn isel eto,
 Er fy mod i yn eiddil o ran eiddo,
 Mi felldithia' ac a dynga' ac alwa'r diawl,
 Ac a rega'r sawl a nhrugo.

Cariad. Rhyfedd mor druenus ydyw dy driniaeth.

Rin. Yr ydwyf fel digon sydd yn y gym'dogaeth.

Cariad. Ow beth am farw wedi'r cwbl.

Rin. Ymgrogi neu foddï, fyddai weithiau 'n ei feddwl

Cariad. Ymgroesa, gweddïa rhag drwg ddiwedd;
 'Rwyf yrywan yn deilwng o uffern a'i dialedd.

Rin. Nid oes i mi na hwyl na hedd,
 Digllonedd sy'n fy llanw.

Cariad. Digllonedd ysbryd yw'r gofidi,
 A'r pryf cydwybod sydd byth yn poeni;
 Edifarhewch, a throwch at Dduw,
 Rhag syrthio i'r cyfryw drueni.

Rin. A dâl imi droi yn fy ngrynswth fel yma,
 Megis pe trown i'r groesfordd nesa',
 Neu droi wrth aredig yn ddiiddig ddwys,
 A tharo i'r gwys agosa'?

Cariad. Rhaid i chwi'n gytaf deimlo'n bwysig,
 Eich bod mewn cyflwr llwyr ddamnedig,
 Ac nad oes fodd o'ch rhan eich hun,
 I chwi fod yn ddyn cadwedig.

Rin. Wel, dyna anobaith felly'n dechren,
 Mi a fyddaf yn ei chanol yn waeth na chynneu.

Cariad. Na, dyna'r lle mae'r Meddyg rhâd
Yn datguddio 'i gariad goreu.

Y newynog, a'r sychedig a chalon ddrylliad,
A'r tlawd a'r blinderog, a'r llwythog mewn llith-
Dyna rhai y mae Prynwr hedd [riad,
Yn eu cyraedd yn ei gariad.

Rin. 'Rwyf siueu'n ddyn atgas, diras, dirym,
A chwedi ymrwystro mewn llawer ystym;
Os medr ef newid un mor annuwiol,
Fe fyddai'n gymwys iddo gael ei ganmol.

Cariad, Gyda pharch dyledus dylid ei gofio,
Mae pob rhyw beth yn bosibl iddo,
D'oes eisiau dim ond gwir adnabod
Y modd y mae fe'n iachawdwr pechod.

Rin. Ow beth a wnai 'rwan, â minau mor euog?

Cariad. Credu ac edifarhau'n rhywiog.

Rin. Pa beth ychwaneg yw'r cychwyniad?

Cariad. Gwrando'r gair a'i dderbyn drwy gariad.

Rin. Pa le gwrandawai oreu, dywed?

Pa un ai Dissenters ai Methodistiaid?

Mae, achos fy mrawd a ddygodd fy mri,

Gasineb rhyngwyf fi a phersoniad.

Rwy'n coelio bydd uffern yn bur ddiffaith,

Rhwng personiaid a gwyr y gyfraith,

Nid ae neb yno ar gost yn y byd

Os gellir diengyd ymaith.

Cariad. O taw a chodlo d' ofer chwedlau,

Can's anystyriol iawn yw d' eiriau,

(Os cefais gam y'mhethau'r byd,

Meddwl y dylid madden.

Gwrando'r gair lle ho'i berffeithrwydd,

Dysg farw i'r ddeddf, a byw i'r Arglwydd,

Dyna yw'r nod fu'n bed yn bur,

Yn Nuw'n greadur newydd.

Rin. Onid oes gan y Babtist yma ryw bwti

A olchai fy nhrachwant, pe baid yn fy nbrochi,

Mae rhai yn rhuo ac yn dwndro ar daith,

Fod rhinwedd yn ngwaith y rheiny.

Cariad. Ni thâl traddodiadau a doniau dynica
Mewn gwin nag olew, heb gyfnewid y galon,
Nid yw elusenau na gweddiâu maith,
Heb gariad, ond gwaith gwirion.

Rin. Mi dyna'r gorchudd oddiar fy wyneb,
Ac a dafaf yn landeg holl offer creulondeb,
Mi ddiosgaf wisgiad cybydd-dod blin,
Ac a ildiaf i drin duwioldeb.

Cariad. Dyna'r modd goreu mewn hawddgarwch,
Dilyn bur gariad ar fwriad edifeirwch,
Mae bendith i bawb fydd felly'n byw,
Cyhoeddodd Duw ei heddwch.

Rin. Wel, bobl anwyl, mae'n bryd blino
Ar drwst y byd a'r cwbl sydd ynddo;
Cariad a heddwch wrth angenrhaid,
I'm henaid rwy'n dymuno.

Rwy'n profi yn fy nghalon fwy o ddiawlaid
Nag fu ar elw undyn o'nifeiliaid,
Ni fu Cain a Saul, na Suddas ar droed,
Nag Esau eriod mor gased.

Gobeithio cai nerth oddi uchod,
I ymadael a llygredd pechod,
Ac i edrych ar y ddaear fyddar fud
A'i thrysorau i gyd fel sorod.

Ni feddwn o'n rhan ein hunain,
Ond melldith llid a chynen,
Oni chawn brofiad o'r cariad gwir,
Ni a fygir gan genfigen.

Dymunwn gael trugaredd,
Yn rheol y gwirionedd,
Yn ffordd yr heddwch a'r mawrhâd,
Lle mae'r cariad rhad yn cyraedd.

ENTER SIR TOM.

Name of goodness, yr hen gadno,
Ydych chi'n dal ati hi eto,
Beth, a ddarfu rywun sydyn sail
Eich newid a'ch ail *renewio*?

Rin. 'Rwy'n dechreu newid fy ffordd annuwiol,
Mi fu'm ormod ysywaeth yn was i'r diafol.

Tom. Ai ymrafael cyflog fu'n gwneud i chwi,
Ymado'n ddiamedol.

Ffei, rhyfedd genyf fi eto,
Na fyddwch yn tynu i ail gytuno;
Mae'n arw i'r gwas ac yntau'n gâr,
Oddiwrth hen feistr fwstro.

Rin. O taw a'th ynfyrwydd, peth anfeidrol
Yw meddwl myn'd i fyd tragwyddol.

Tom. Mae rhai'n myn'd yno mewn 'chydig baeh.
A fyddai'n iach ryfeddol.

Rin. Rheitia'n y byd i bawb ystyried,
Mater mawr yw cyflwr enaid.

Tom. Wel, odid gybydd hyd yn hyn
A welais cyn ddawioled.

Ond ymh'le cymerodd bi chwi, heb gam eiriau,
Yn eich pen, ai'ch tin, neu rai o'ch aelodau?

Rin. Yn fy nhalon eigion i
Mae'r dychryn wedi dechreu.

Tom. Fe ddechreuodd felly o ddeheu,
Yr unig lanerch yw'r calonau,
Cyraedd cariad a phrosiad ffrî
Am enaid bo chwi a minau.

Mae cariad yn cuddio'n ddiâu
Liaws afrifed o bechodau,
Ail ymwisgo, er llwyddo'n llon
Yn y fynydd hon wnaflinâu.

Rin. Mae'n bryd i ni bellach bwylllo,
Ynfyrwydd i ni ddal i foedro,
Oblegyd mae'r amser, dymer dwys,
Ac y dylai fod pwys, yn pasio.

Oh! 'r amser gwerthfawr odiaeth
Aeth geny'n ddiameu ymaith,
Yn dilyn gwagedd lygraidd lid,
Drwy hoff'r byd a'i drafferth.

Tom. Mae dynion yn Nghymru beno,
Lawer, wedi lled oleuo,
Ac er hyny a hywyd rhydd,
Yn ddiffwrwyth o gresydd effro.

Rim. Dyna yw'r ddamnedigaeth,
Ddyfod goleuni i'r byd mor helaeth,
A dynion yn caru'r tywyllwch ffri
Yn fwy na'r g'leini glanwaith,

'Ran y gwas a wybu'n eglur
Ewyllys ei Arglwydd heb ei wneuthur,
A geiff ei ffonodio a llawer loes,
Ac nid yw ond moes gymesur.

Tom. Mae yma ddynion a wŷr drwy ddoniau,
Mai drwg yw medwi'n lle myn'd adreu,
Ond f' all rhai fod yn moedro ac yn pwnio peth,
Mewn bariaeth cyn y boreu.

Ac fe allai euenctyd, hwyntau,
Yndroi'n rhy garedig efo'u cariadau,
Ac y bydd rhai'n barnu mai ni trwy'r byd,
A'u tynodd i ymlid eu tinau.

Rin. Fe ddarfu am hyny ini ranu'r gwirionedd,
Ac ni allwn wrth dwyll, na rhagrith na llygredd,
Mae llawer dan bregeth, fel Suddas eu brawd,
Yn drysu yn y cnawd a'i drosedd.

Ond fe ddichon y rhai mae Duw'u eu caru,
Gael y gair yn gweithio drwy ffolineb pregethu;
Can's mae pob peth lle mae cariad ynglŷn,
Yn gweithio mewu dŷn er d'ioni.

Gwyn ei fyd, a gaffo ei gyflwr
Ynghariad y Gwardwr;
Ni waeth pa beth a fo angau drud,
Cwynion y byd, na'r cynuwr.

Peth anhawdd i wraig anghofio
Ei hanwyl blentyn sugno,
Er i hono ei garu, yn iach a ehla',
Mae'r cariad yma'n curo.

Mae hwn yn dal mewn undeb,
I garu yn nhragwyddoldeb,
Pan ballo ffydd a gobaith gwiw,
Mae llawenydd Duw yn ei wyneb.

Tom. Yn mhle doi'r hŷd i'r fath gariad di ddarfod?

Rin. Ynom ein hunain, mewn rhan hynod,
Mae pob pechadur gwaetha'n fyw,
Ac elfen Duw yn y gwaelod.

Anadliad o'r cariad goreu
Ydyw enaid pob dyn o'r dechreu,
Ond fe gollwyd yn Adda, ddalffa ddwys,
A chadarn bwys pechodau.

Ond mae'r gareg callestr er y collo,
Mewn dwr neu ddaear, a'i darnio a'i duo,
Fe ellir yn glir, drwy foddion glân,
Ennyn y tân o hono.

Ac felly pechadur oerddu,
Pan ddechreuo'r gair gynhyrfu,
Mae fel corsen ysig yn cael ei drin,
Neu megis llin yn mygu.

Mae Eneiniog yr Arglwydd yn ymguddio,
Tu hwnt i'r dodrefn, ond edrych am dano,
A rhaid chwilio am ddryll arian wedi colli'n swrth
Mewn gobaith wrth ysgubo.

Yn y maes mae'r perl a guddiwyd,
Rhaid cloddio yn y man lle i claddwyd,
Ac mae yma bridd a cheryg bras,
Yn dewdwr cas, lle'i dodwyd.

O ran fe chwyddodd bridd coch Adda,
Gan gymaint fu o chwala wrth balu a chybola,
Ni chaiff neb ffrwyth mewn daear *ffresh*
Lle darfu Foses faesa.

Ond fe aeth rhyw wr a'i Arad,
Heb droi yn ol ei edrychiad;
Ac mae ganddo hadyd yn ei hau
Sy'n cyraedd cwysau cariad.

O lasur hwnw 'roedd y wreigan hono,
Yn cael y blawd i'w lefeinio,
Ac effaith y lefain, ffrwyth y loes,
A dreiddiodd ei thoes hi drwyddo.

A'r bars hwnw'n burion,
Archwaethodd y Mab afradlon,
Pan oedd ar lewygu, yn mhell o'i wlad,
Fe gofiodd ei Dad oedd gyfion.

Er darfod iddo bechu,
Roedd e'n blentyn mewn rhan, er hyny;

Ac nid y gweision, ond y gwir blant,
A fyddant i etifeddu.

Tom. Wel, mae yma amryw'n barnu
Dy fod ti ar y gwaethaf i bregethu,
Can's beth a dal pob eitha dysg,
'S caiff drwg yn ein mysg gymysgu.

Rin. Onid ydyw'r ddoethineb wedi ei thaenu,
I adael i'r gwenith a'r efrau gyd-dyfu,
Hyd nes y delo'r clirio clau,
Diwrnod glanhau'r llawr dyrnu.

Ar hen lawr dyrnu, pe baem ni'n dirnad
Y ca'dd teml Solomon gynt ei seiliad,
A hen lawr dyrnu yw calon dyn,
Lle dylai fod 'run adeilad.

Mae calon pechadur, pe coeliem ni'r chwedel,
Run fath a *Hall* Farchnad neu lawr dyrnu'r cythrel
Ond awdurdod y gair, diwair da
Eill wneutur yma Demel.

Ond mae gwneud temlau o gnawd tomlyd,
Ran elw i'r gweithwyr gael gwthio'u celfyddyd,
Ychydig sy'n ceisio ymbwyso a byw,
A theml Duw yn'r ybsryd.

Mae gweniaeth diawl yn gwneuthud eulyn,
Clwt newydd a'i wnïo i fritho'r hen frethyn,
Un diawl Pharisead yn gweled gwall,
A diawl arall yn Dailwryn.

Fel hyn, mae'r noeth am wneuthur
Arffedogau o ddail ffigys natur,
Yn lle gwneud aberth o gnawd Oen,
A gosod y croen yn gysur.

Mae duwiau'r Sarp yn erbyn cyflwr
Hollawl bechadur â hollawl achubwr;
Yna mae'r Hunan yn codi mewn rhôch,
Fel y clywsoch, yn dacluswr.

Gwnaeth Dewiniaid yr Aipht yn fedrus.
Ddarluniad o wialen Moses;
Ond 'roedd gwialen cartiad, er hyny i gyd,
Yn llyngou'r bywyd beius.

Tom. Wel, 'rwyf yn traethu geiriau,
Nid gweddus mae rhai'n eu goddeu,
Oblegid eu bod yn siarad syn,
I ddal atyn', mewn *Interlutiau*.

Rin. P'run ellir gredu fwyaf gw'radwydd,
Ai Person mewn gwenwisg yn pregethu celwydd,
Ai'r gwir ger bron, mewn gwisgiad brith,
'N ddi ragrith ar euogrwydd.

Pe bae blentyn mewn Stabl yn cael ei eni,
A raid i hwnw fod yn Geffyl, o'r ran hyny?
Ac fe dd'wedir weithiau, mai'r goren i gyd,
A ddaeth i'r byd o'r beudy.

Tom. Mae natur Baalam eto'n gyndyn,
Er bod cleddyf noeth yn ei erbyn;
Gwell ganddo derfysgu, er cael gwasgu ei goes,
Na gwrando *noise* gan asyn.

Ond mae *Interlutiau*, wiw d'weud amgen,
Yn bur debygol i'r Biogen,
Yn frith ar ei thrô, ac ysgoywedd ei threm,
Ddaw hi byth 'run glem a'r Glomen.

Rin. Wel gwrando di etto atad, (glymiad,
Roedd y Gigfran a'r Biogen a'r Glomen 'r un
Yng'hyd â phob peth oedd yn haeddu parch,
Y Diluw yn 'r Arch 'r un daliad.

A phob creadur yn ol ei gyflwr,
Yn dangos gogoniant y Creawdwr,
Ond y Llew a'r Oen a'r Glomen glau,
Oedd deip o ranau'r Prynwr.

Ond gwaelod y dirgelwch,
Sy'n cyraedd gwir hawddgarwch,
Yw adnabod y drefn, ydyw yr Un yn Dri,
Ynom ni'n cyhoeddi heddwch.

Dyna lle mae'r teyrnasiad hwnw,
Nid wele yma, neu wele accw;
Pe ba'id yn gweld fel hyny 'r gwir,
Fe fyddai ar dir lai o dwrw.

A llai o farnu llygraidd,
Gwas un arall, yn gas ac yn oeraidd,

Ran i'w Arglwydd ei hun, mae pob un lle bo,
Yn sefyll neu syrthio'n serthaidd.

Mae pawb wrth natur yn gyd-wastad,
Fel y cauer pob genau rhag un derchafiad,
Rhaid i bob un o dan eu baich,
Gael eu codi gan fraich y Ceidwad.

Tom. Wel gad ei chadw ar hyn o chwedel,
A chanu penill wrth ymadael;
Rhai safo'n llonydd yn eu lle,
Cant glywed hoff eirie o ffarwel.

YR EPILOGUE NEU'R DIWEDDGLO, AR "MILLER'S KEY."

Y pur wrandawr diwyd sy'n hyfryd am fwynhau,
Y cnoiad cil, egniad calon, o sion i'w brashau.
Gobeithio am bawb weithian, yn 'r unfan yn ddirôch.
Nad ydyw dysg yn cymysg yma
Fel tafu mana i'r moch;
Chwi welsoch yma o hyd
Ryw bynciau o ddull y byd,
Yn dangos nad yw mawredd
Heb gariad a thrugaredd, ond gwagedd oll i gyd;
Mae tlodi hynod lun,
Fel deddf yn rhwymo dŷn,
Rhaid cael yn rhad fawrhidi,
Neu weitho rhag tylodi, trwy boeni'n gaeth bob un.



DIWEDD.

JOHN JONES, ARGRAFFYDD, LLANRWST.

